PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

Rhifyn 28 tudalen

75c | Rhif 460 | Mehefin 2023










# Twrnament Eric ac Arthur Thomas 2023





Penrhyn-coch Deinamos (dan 13)



Bro Dysynni



Ystwyth Bears B (dan 13)



Ystwyth Rhinos A (dan 15) gollodd yn erbyn Bro Dysynni

Lluniau: RBPhotography – www.rbphotography.ca Ffotograffydd lleol yn arbenigo mewn digwyddiadau a chwaraeon.

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**



**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 07737 622034
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 07939 652273
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Iona Davies**, Y Nyth, Llanilar, Aberystwyth, SY23 4NZ
☎ 01974 241087
ionadavies752@btinternet.com
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cêt Morgan**
Fferm Glanfrêd, Lôn Glanfrêd, Llandre SY24 5BY
cetmorgan@icloud.com 07966 510195
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP
**ADOLYGIADAU LLYFRAU**
**Llinos Dafis**, Cedrwydd, Llandre
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST – Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen
Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Esther Prytherch** ☎ 07968 593078
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Heulwen Lewis**, Deiniol, Capel Bangor
☎ 880413 heulwenlewis@btinternet.com
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


CYMRAEG

# dyddiadur

**Rhifyn Medi: Dyddiad cau** Medi 8; **Dyddiad cyhoeddi** Medi 20

**MEHEFIN 21** Nos Fercher Cyfarfod blynyddol Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb am 7.30

**MEHEFIN 22** Bore Iau Ras yr iaith Aberystwyth am 10.00. Mei Gwynedd a'r band Tŷ Potas ar safle'r band o 10.30 ymlaen.

**MEHEFIN 22** Nos Iau Cyngerdd blynyddol Cangen y Borth, Y Lleng Brydeinig gyda Chör Meibion Aberystwyth ac artistiaid eraill yn Hwb Cymunedol y Borth am 7.30. Croeso i bawb.

**MEHEFIN 23** Nos Wener Bwca yn Sesiwn nos Wener yn y Llew Gwyn, Tal-y-bont am 8.00

**MEHEFIN 24** Dydd Sadwrn Ffair Haf Neuadd Rhydypennau o 12.00-2.00 Stondinau BBQ Adloniant

**MEHEFIN 29** Nos Iau Cyfarfod Cyhoeddus Blynyddol Cyngor Cymuned Tirymynach yn Neuadd Rhydypennau am 7.30. Croeso cynnes i bawb.

**GORFFENNAF 4** Dydd Mawrth Cyngerdd Côr Cymry Gogledd America yn Oriel Gregynog, Llyfrgell Genedlaethol Aberystwyth am 12.30

**GORFFENNAF 8** Pnawn Sadwrn Te hufen a mefus ac adloniant ysgafn. Eglwys St Ioan, Penrhyn-coch rhwng 3.00-5.00 Mynediad £6/£3.50 Raffl a stondin cynnyrch cartref.

**GORFFENNAF 13** Nos Iau BBC Radio Cymru yn recordio rowndiau cyn-derfynol Talwrn y Beirdd yn Ysgoldy Bethlehem, Llandre, am 7.00. Croeso cynnes i bawb. Mynediad am ddim.

**GORFFENNAF 14** Nos Wener Dylan Morris yn SY23

**GORFFENNAF 14** Nos Wener Ffair haf Ysgol Penrhyn-coch ar gae'r ysgol o 4.00-6.00

**GORFFENNAF 14** Nos Wener Lansiad CD Parti Camddwr yn Nhafarn y Bont, Bron-nant am 7.00 Bydd y CD ar werth am £10.00

**GORFFENNAF 15** Nos Sadwrn BBQ Meibion y Mynydd ar Fferm Brynperffaith, Pontarfynach. Bwyd o 5.00; cyngerdd 7.00 Band byw, ocsiwn, Cardi-gân, Sgarmes. Rhoddir canran o'r elw i Tir Dewi a Ward Ystwyth, Bron-glais. Tocynnau – Oedolion: £12 Plant ysgol £8 ar gael gan aelodau'r Côr, Garej Rheidol a Siop Inc.

**GORFFENNAF 16** Prynhawn Sul Taith capel Noddfa, Bow Street i Abaty Cymer ger Dolgellau + te pnawn. Cwrdd wrth capel Noddfa 1.15. Cysylltwch â swyddogion y capel mewn da bryd os hoffech ymuno. (Croeso i chi ebostio anwenmai@hotmail.co.uk)

**GORFFENNAF 16** Prynhawn Sul Taith Horeb a Bethel i wasanaeth awyr agored ger cofeb Waldo, Mynachlog-ddu Manylion gan Ceris.Gruffudd@gmail.com

**GORFFENNAF 18** Dydd Mawrth Trip / ymweliad gardd Cymdeithas Trefnu Blodau Aberystwyth a'r Cylch

**GORFFENNAF 29** Bore Sadwrn Treialon Cŵn Defaid Bancydarren am 8.00 y bore. Manylion: Maddy Lewis 01970 828595

**GORFFENNAF 29** Dydd Sadwrn Parti yn y Parc o 2.30 ymlaen ym Mharc Chwarae Penrhyn-coch. Castell bownsio – bar – BBQ – Cacennau a donyts. Adloniant gan Smoking Guns a Leo Price. Dewch â'ch gwydr plastig i'w ddefnyddio yn y bar. Cefnogwch ein bar a BBQ er mwyn cyfrannu st y Parc. Trefnir gan PATRASA

**AWST 4** Dydd Gwener Carnifal y Borth rhwng 1yp a 3yp

**AWST 19** Dydd Sadwrn Sioe Arddwriaethol Penrhyn-coch

**MEDI 1 a 2** Nosweithiau Gwener a Sadwrn Cwmni Theatr Genedlaethol yr Urdd yn cyflwyno Deffro'r gwanwyn yn Theatr y Werin am 7.30.

**MEDI 2** Dydd Sadwrn Sioe Arddwriaethol Rhydypennau – gweler eu tudalen Facebook

**MEDI 11** Dydd Llun Cyfarfod blynyddol y Tincer yn festri Noddfa, Bow Street am 7.00

**MEDI 16** Nos Sadwrn Noson Cabaret Ysgol Penweddig (Dathlu 40) yng Nghanolfan y Celfyddydau am 7.30

**MEDI 16** Dydd Sadwrn Eisteddfod Gadeiriol Cwmystwyth

**MEDI 29** Nos Wener Gai Toms yn Sesiwn nos Wener yn y Llew Gwyn, Tal-y-bont am 8.00

YTincer@googlemail.com

# CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Mai 2023

**£25** (Rhif 150) Wynne Melville Jones, Y Berllan, Llanfihangel Genau'r-glyn
**£15** (Rhif 14) Margaret Rees, Seintwar, Dolau
**£10** (Rhif 41) Meinir Chambers, Garn Isaf, Bow Street

Fe dynnwyd y rhifau buddugol ym Mhwyllgor Sioe Capel Bangor.
Cofiwch os ydych yn aelod o'r cyfeillion ac yn newid enw neu gyfeiriad plis rhowch wybod i'r trefnydd Bethan Bebb 01970880228 neu ar ebost m.e.bebb@talk21.com. Diolch yn fawr i bawb sydd wedi ymaelodi.

## Rhoddion

Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhodd isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.

**Cyngor Cymuned Genau'r-glyn** £200

## 30 mlynedd yn ôl



Mae'n siwr i'r mwyafrif o drigolion yr ardal ddeffro fore Llun Mai 24 i'r newydd fod tri o'r ardal – Carwyn Lloyd Jones, Maes Ceiro, Bow Street; Dylan Roberts, Awel y Werydd, Bow Street a Geraint Rowlands, Coed y Ruel, Llandre – ar goll ar y môr mewn cwch 14 troedfedd. Fel yr âi'r bore ymlaen roedd pryder am;lwg ymhlith trigolion yr ardal, pryder a barhaodd drwy'r bore. Pan adroddwyd ar y radio am hanner dydd fod y cwch wedi ei darganfod deng milltir o Aberdyfi roedd yna ansicrwydd yn dal ynghylch cyflwr y tri. Mawr y llawenydd, felly, pan ddeallwyd fod y tri yn iach. Fe'u codwyd gan hofrenydd Brenin y Mor a'u hedfan i Ysbyty Bron-glais Rhaid llongyfarch y tri am ymddwyn mor gyfrifol gan aros gyda'i gilydd yn y cwch nes i'r gwasanaethau achub ddod o hyd iddynt. (O'r *Tincer* Mehefin 1993)

# Creu hanes

Yn stadiwm Y Seintiau Newydd, Croesoswallt ar 20 Mai cafodd hanes ei greu gan dîm merched dan 15 Ceredigion trwy ennill y Cwpan Rhyng-gymdeithas Ysgolion Cymru am y tro cyntaf gan guro merched Ysgolion Caerdydd a'r Fro mewn perfformiad aeddfed a disgybledig. Gwnaeth goliau gan Lleucu Mathias (2) (Ysgol Bro Teifi) ac gan Anwen Merry (Ysgol Penweddig) sicrhau buddugoliaeth o 3-0 i dîm Justin Evans a Gareth Jones.

Yn yr hanner cyntaf, gyda merched Ceredigion yn dominyddu, aethant ar y blaen wedi 13 munud gyda symudiad pasio crefftus yn arwain at Lleucu Mathias yn gorffen yn gelfydd. Ar ôl dominyddu'r chwarae am y rhan fwyaf o'r hanner fe wnaeth Ceredigion ymestyn eu mantais wedi 35 munud yn dilyn rhediad twyllodrus Lleucu Mathias gan greu cyfle i Anwen Merry ergydio yn hyderus i gornel uchaf y rhwyd.



Caerdydd a'r Fro ddechreuodd yr ail hanner y cryfaf, ond Ceredigion aeth ymhellach ar y blaen ar ôl 47 munud pan rwydodd Lleucu Mathias yn dilyn pêl hir o ganol cae gan ganiatàu iddi redeg yn glir o amddiffyn Caerdydd ac ergydio i gefn y rhwyd er mawr lawenydd i'r cefnogwyr o Geredigion. Yn dilyn hyn, creodd Caerdydd nifer o gyfleoedd gan gynnwys ergyd ffyrnig gan ei ymosodwraig a gafodd ei arbed yn wyrthiol dros y bar gan y golwr Summer Evans. Er gwaethaf y pwysau safodd amddiffyn Ceredigion yn gadarn ac ynghyd â thaclo gweithgar a dyfalbarhad canol cae galluogodd hyn i ferched Ceredigion atal bygythiadau pellach yn enwedig o'r darnau gosod.

Pan gododd y capten Jem Evans y cwpan gwelwyd golygfeydd gorfoleddus ymysg y chwaraewyr a'r cefnogwyr. Llongyfarchiadau i'r merched ar berfformiad rhagorol ac i'r tîm hyfforddi ar eu llwyddiant. Diolch i'r garfan am eu cyfraniad yn ystod tymor hanesyddol diguro a diolch hefyd i'r ysgolion unigol am eu cefnogaeth. Da iawn ferched!

Mae 4 yn y tîm o Ysgol Penweddig – Llio Tanat, Llandre; Tirion Sedgwick, Dôl-y-bont; Nel Rowlands, Penrhyn-coch ac Anwen Merry, Aberystwyth.

# Y Borth

**Gwobr Gwirfoddoli**
Llongyfarchiadau mawr i Carol Bainbridge ar ennill gwobr Cyflawniad Eithriadol yng ngwobrau gwirfoddoli CAVO eleni. Mae Carol yn gweithio'n ddi-flino, gan wirfoddoli gyda Hwb Cymunedol y Borth ac yn Gadeirydd Carnifal y Borth. Roedd pum categori yn y gwobrau eleni, gydag enwebiadau o bob cwr o Geredigion.

**Arddangosfa Gelf**
Caiff arddangosfa o waith celf gan aelodau Canolfan Deulu a Chlwb Ieuenctid Hwb Cymunedol y Borth ei chynnal yn Seren y Môr / Star of the Sea rhwng 10yb a 3yp ar ddydd Sadwrn 24 a a dydd Sul 25 Mehefin.

Mae'r arddangosfa'n rhan o brosiect Meddwl Ymlaen / Mind Our Futures sydd wedi cynnal nifer o weithgareddau ymgynghori ar gyfer pobl ifanc rhwng 4 a 24 oed, gyda chefnogaeth gan y Loteri Genedlaethol.

Bydd gweithdy creu collage yn cael ei gynnal ar y dydd Sadwrn, dan arweiniad yr artist Nikki Pontin, ac mae croeso i bobl o bob oed i ymuno. Caiff y darn yma o waith celf cymunedol ei arddangos yn Hwb Cymunedol y Borth.

**Hwyl yr Haf**
Unwaith eto eleni, mae'r Hwb yn trefnu cyfres o sesiynau chwarae awyr agored ar dir Ysgol Craig yr Wylfa dros yr haf. Bydd Hwyl yr Haf yn cwrdd bob dydd Mercher rhwng 10yb a 2.30yp.



## Priodasau

Llongyfarchiadau mawr i Harri Prytherch ac Emily Ruth Davies ar eu priodas yng Nghaerdydd ar ddydd Sadwrn 3 Mehefin. Yn gyn ddisgybl yn Ysgol Penweddig, mae Harri'n fab i Rhodri Edwards ac Esther Prytherch sy'n byw yn y Borth. Hanu o Gaerfyrddin y mae Emily, yn ferch i John a Deborah Davies. Mae Mr a Mrs Prytherch wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd.

Llongyfarchiadau mawr hefyd i Stuart Hughes a Daniela Costa ar eu priodas yn Aberystwyth ar ddydd Sadwrn 27 Mai. Mae Stuart yn fab i'r Cynghorydd Hugh Hughes ac Andrea Hughes sy'n byw yn y Borth, tra fod Daniela yn hanu o Bortiwgal.

**Pen blwydd Arbennig**
Dymuniadau gorau i George Romary oedd yn dathlu ei ben blwydd yn 70 oed ar 9 Mehefin. Mae George yn un o sylfaenwyr Amgueddfa Gorsaf y Borth.

**Ffair Elusennau**
Daeth torf dda o bobl i gefnogi Ffair Elusennau'r Borth ar ddydd Llun gŵyl y banc 29 Mai. Roedd stondinau yno'n codi arian ar gyfer Ymchwil Alzheirmers, Gerddi Cymunedol y Borth, Clwb Llewod y Borth; WI y Borth; Eglwys Sant Matthew, Ysgol Craig yr Wylfa, Clwb Henoed y Borth, RNLI y Borth, Amgueddfa Gorsaf y Borth, Clwb Ieuenctid y Borth a changen y Borth o'r Lleng Brydeinig. Diolch i Joy Cook am drefnu.

**Cydymdeimlad**
Estynnwn pob cydymdeimlad â theulu a chyfeillion Thelma Bewley, née Strauch, a fu farw'n dawel yn ei chartref yn y Borth ar ddydd Sadwrn 20 Mai. Roedd hi'n 99 oed. Bu'n gweithio i'r Gwasanaeth Iechyd pan yn iau ac roedd hi'n aelod o Wasanaeth Menywod y Llynges Frenhinol – neu'r 'Wren' – yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Cynhaliwyd gwasanaeth angladd yn Amlosgfa Aberystwyth ar ddydd Gwener 23 Mehefin.

**Gwasanaeth coffa**
Cynhelir gwasanaeth coffa er cof am Dr Aeron Gwyn Davies yn Llety Parc, Aberystwyth am 12.00 ar Orffennaf 1af. Bu Dr Davies – fu'n byw yn y Borth am flynyddoedd tra roedd yn arbenigwr ym Mron-glais – farw yn Florida, UDA ar Chwefror 3ydd. Derbynir rhoddion er cof am Dr Davies i Uned Arennol Abertawe. Dylid gwneud siec i Fwrdd Iechyd Bae Abertawe d/o Bethany Bond, Bloc Gweinyddu Clinigol 1a, Heol Maes Eglwys, Treforys, SA6 6NL



Trydan
WILL DAVEY
Electrical & AV

- Gosodiad Trydanol Ardystiedig
- CCTV a AV
- Arolygu & Phrofi
- Pŵeru cerbydau trydan
- Gosod PV solar

GWYNFA, PISGAH, ABERYSTWYTH, SY23 4NE

07581 173 684 info@willdavey.co.uk @trydanwilldavey

# Newyddion Chwaraeon

Gan Catrin Pugh-Jones

## Pêl-Fasged

Nôl ym mis Ebrill bu Josh Tudor sy'n byw yn Ynys-las yn chwarae dros Gymru ym mhencampwriaeth Pêl Fasged o dan 18.

Mae Josh wedi chwarae i dîm fasged Cymru ers yn 11 mlwydd oed. Yn 14 daeth yn rhan o acadami pêl fasged Loughborough oherwydd ei allu arbennig yn y gamp. Er mwyn fynychu'r acadami mae wedi byw gyda theulu maeth a mynd i'r ysgol yn Loughborough gan ddod adre i Ynys-las yn ystod y gwyliau. Ar hyn o bryd mae'n astudio ar gyfer ei arholiadau lefel A.

Trwy fod yn rhan o o'r acadami ac o dîm Cymru, mae Josh wedi cael profiadau arbennig yn chwarae pêl fasged mewn gwahanol wledydd. Dywed ei fam, Sarah, fod y teulu yn falch iawn o lwyddiannau Josh ac yn ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi ei gefnogi ar hyd y ffordd.







## Clwb Golff y Borth ac Ynys-las

**Adran y Menywod**
Cafwyd penwythnos gwyl y banc prysur ar ddiwedd mis Mai yng Nghlwb Golff y Borth ac Ynys-las, gyda dwy gystadleuaeth bwysig yn adran y menywod sef y Griffiths Salver a Thlws Edith Beddard.

**Griffiths Salver**
Ennillwyd y gystadleuaeth medal gan Kathy Price gyda sgôr arbennig o 67 net, sy'n bum ergyd o dan ei handicap. Yn ail roedd Jane Raw Rees oedd yn curo Clare Jones ar y 9 twll olaf gyda'r ddwy ar sgör o 70 yr un. Llongyfarchiadau iddyn nhw gyd.

**Tlws Edith Beddard**
Cystadleuaeth Stableford oedd y gystadleuaeth yma gyda Carol Holmes yn cipio'r wobr â sgör arbennig arall o 38 pwynt.

Mair Jenkins ddaeth yn ail gyda sgôr o 37 a Barbara Reece yn drydydd ar 36 pwynt.

Yn dilyn y gystadleuaeth yma cafwyd cyfle i wobrwyo enillwyr y cystadlaethau amrywiol sydd wedi cymryd lle eleni a chyfle i gymdeithasu tra'n mwynhau lluniaeth te prynhawn gan arlwywyr newydd y Clwb Joshua ac Isabel. Hyfryd oedd gweld bod ein Capten Lynda Evans yn ddigon da i ymuno â ni i wneud y cyflwyniadau.

**Adran y Dynion**
Mae'r dynion hefyd wedi cael mis prysur gyda nifer o gystadlaethau yn cymryd lle. Dyma rhai o'r canlyniadau.

**Cwpan Tom Haggerty**
Enillwyr Harri Jones a Maurice Speake gyda sgôr o 45 pwynt.
Yn ail Dale Harvey a Gareth Jones gyda sgôr o 43 pwynt
Yn drydydd Ben Slater a K Perkins ar 42 pwynt

**Cwpan Patterson**
Enillydd Saul ap Shem – 44 pwynt
Ail Adam Roberts – 38 pwynt
3ydd Stephen Lucas – 37 pwynt

**Cwpan Morris**
Enillydd Darren Phillips 66 net
Ail Saul ap Shem – 69 net
3ydd Brian Davies – 69 net

Sgoriau arbennig ar draws y dair cystadleuaeth yma. Llongyfarchiadau i bawb.

# Hanes Neuadd Goffa Tal-y-bont

Yn 2024 bydd yn gan mlynedd ers agoriad swyddogol Neuadd Goffa Tal-y-bont. Bydd pwyllgor y Neuadd yn trefnu dathliadau a dwi wedi derbyn comisiwn i ysgrifennu hanes y Neuadd. Dwi'n awyddus i glywed gan unrhyw un sydd ag atgofion clir a/neu ffotograffau am weithgareddau/digwyddiadau yn y Neuadd dros y blynyddoedd. Mae gen i ddiddordeb arbennig mewn clywed am y degawdau cynharaf, gan dderbyn nad oes neb yn cofio 1924! Gallwch gysylltu â mi dros y ffon (832560) neu drwy ebost gwynjenkins81@gmail.com.
**Gwyn Jenkins**

## Neuadd Rhydypennau

**Mae gan Neuadd Rhydypennau wefan newydd sbon. Ewch i'r ddolen isod i gael golwg ar beth sy'n digwydd a beth sydd ar gael i'w logi. Rhannwch y ddolen gyda'ch teulu a ffrindiau!**

**www.neuaddrhydypennau.cymru**

# Llandre

**Gwasanaethau Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn**
Mehefin 18. 9.30 y bore. Cymun Bendigaid
Mehefin 25. 3.00 y prynhawn. Hwyrol Weddi
Gorffennaf 2. 9.30 y bore. Cymun Bendigaid

**Diolch**
Dymuna Marianne Jones Powell ddiolch yn fawr i bawb a fu'n cynorthwyo pan gefodd yr anffawd ac a fu'n cysylltu â hi tra'n Ysbyty Bron-glais am gyfnod o dros 5 wythnos ac wedi hynny. Mae'n ddrwg iawn ganddi ei bod wedi colli Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch oherwydd hyn a diolch yn fawr i bawb a weithiodd i wneud yr Eisteddfod yn llwyddiant. Yn anffodus bu'n amser mwyaf erchyll ei bywyd. Diolch o galon i bawb.


Megan Griffiths gyda'r llun enillodd y wobr yn yr Urdd

# Cyngor Cymuned Melindwr

**Cwrdd Blynyddol**
Cynhaliwyd y Cwrdd Blynyddol Nos Iau Mai 18 yn Neuadd Capel Bangor. Cafwyd adroddiad o weithgareddau Cyngor Cymuned Melindwr dros y flwyddyn gan y Cadeirydd Jim Palmer a'r Cynghorydd Sir Rhodri Davies. Diolchodd y ddau i'w cyd-gynghorwyr am eu gwaith a'u hymrwymiad dros y flwyddyn.

Ethol Swyddogion – Cadeirydd – Sarah Hughes; Is-Gadeirydd – Jean Watson dros dro. Clerc – Lynne B Davies.

Yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol cafwyd y cyfarfod misol. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth dau gynghorydd. Mae yna un sedd wag; os oes gan rhywun ddiddordeb mewn ymuno â'r Cyngor cysylltwch â'r clerc neu un o'r cynghorwyr.

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Mis Ebrill fel rhai cywir.

Adroddodd y clerc fod y rhan gyntaf o'r praesept wedi ei dalu i'r cyfrif ar ddiwedd Ebrill.

Roedd un cais cynllunio wedi dod i sylw y Cyngor sef A230348 – dim gwrthwynebiad i'r cais.

Os hoffech fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod yna cysylltwch â'r clerc. (ebost- cyngormelindwrcouncil@gmail.com).

Cynhelir y Cyfarfod nesaf nos Iau Mehefin 15fed am 7.30yh yn Neuadd Capel Bangor.

# Dôl-y-bont

**Pen blwydd abennig**
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Gareth Rowlands, Brynllys a fu yn dathlu pen blwydd arbennig yn ddiweddar.


Llongyfarchiadau i Gruffydd Sion, Llandre ac Ysgol Penweddig ddaeth yn drydydd yn yr unawd pres Bl 7, 8 a 9

**Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol**

# Côr Gloria

Y mae Côr Gloria Aberystwyth, o dan arweiniad y delynores a cherddor Delyth Evans, wedi bod yn ymarfer yn galed am eu cyngerdd, o dan yr enw Tant a Chân – A Musical Celebration,ar Orffennaf 11eg. Y mae'r rhaglen yn cynnwys ystod o eitemau, ar gân ac ar offerynau, yn adnabyddus a llai adnabyddus. Y mae rhain yn cynnwys perfformiad byd-eang cyntaf darn, yn seiliedig ar Salm 46, wedi ei gyfansoddi gan Chris Marshall, a adnabyddir yn broffesiynol fel Marshall, sydd â'i weithiau wedi eu perfformio gan rai o gerddorfeydd blaenaf y byd. Bydd ef a'i wraig, Claire Jones, Telynores Swyddogol Tywysog Cymru o 2007 hyd 2011, yn chwarae sawl darn yn ystod y cyngerdd. Bydd Daniel Smith, cyfansoddwr ac organydd lleol, hefyd yn chwarae perfformiad byd-eang cyntaf o'i gyfansoddiad diweddaraf i'r organ, o'r enw Four Variations on Noël Nouvelet.

Y mae Côr Gloria yn edrych ymlaen at Orffennaf 11eg ac y mae croeso i bawb i'r hyn sy'n addo i fod yn noson gerddorol wych o haf, yn cychwyn am 7 o'r gloch yn Eglwys Sant Mihangel, Aberystwyth. Darperir lluniaeth ysgafn wedi'r cyngerdd. Awgrymir mynediad drwy rodd o £5 wrth y drws.



## Goginan

**Llongyfarchiadau**
Pen blwydd Hapus i Colin Baxter, Oakdale ar ei ben blwydd yn wythdeg ar Fehefin 26.

**Proms**
Ar brynhawn Sul hyfryd ar Fai yr unfed ar hugain cynhaliwyd "Proms yn y Cae" ar gae Cymdeithas Goginan. Roedd yna amryw o artistiaid yn bresennol yn rhoi eu hamser yn wirfoddol at yr achos yn cynnwys pedwarawd llinyddol Vicky, Opera Aber, Sophie Davies (piano), Meibion y Mynydd a Band Arian Aberystwyth. Cafodd y gynulleidfa wledd o fiwsig a chanu. Roedd yna wledd o gacennau a diodydd wedi ei drefnu, i gyd gan bwyllgor Cymdeithas Goginan. Roedd yr elw o'r diwrnod yn cael ei drosglwyddo i Ambiwlans Awyr Cymru. Hon oedd y gyntaf ond gobeithio dim yr ola o'r Proms ar y cae.












Bancydarren, Capel Dewi, Capel Madog, Cefn-llwyd, Cwmerfyn, Cwmsymlog, Llwyn-prysg, Penrhiwnewydd, Pen-bont Rhydybeddau, Penrhyn-coch, Salem

Gwefan Cymuned Trefeurig

trefeurig.cymru

- Newyddion diweddaraf
- Hanes a hen luniau
- Cyngor Cymuned
- Mudiadau
- Y Tincer

Gwefan Trefeurig Website Trefeurig8
whhowells@gmail.com



SIOP
SGIDIAU GWDIHW
8 Ffordd Portland, Aberystwyth SY23 2NL
01970 617092
Shan ac Alys Jones

GWASANAETH
GOFAL TRAED
Ceiropodyddion /podiatryddion graddedig ac wedi cofrestru efo'r MRCPod

COPI CYWIR
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

# Penrhyn-coch

**Suliau Horeb**
*Mehefin*
25 2.30 Peter Thomas

*Gorffennaf*
2 2.30 Peter Thomas
9 10.30 Beti Griffiths
16 Sul Taith i wasanaeth ger Cofeb Waldo Williams
23 2.30 Peter Thomas
30 10.00 Wyn Morris ym Methel

*Awst – ymuno gydag eglwysi'r dref*
6 Seion Emyr Gwyn Evans
13 Bethel Judith Morris
20 Morfa Eifion Roberts
27 Seion Gareth Morgan Jones

*Medi*
3 2.30 Peter Thomas
10 10.30 Peter Thomas
17 2.30 Joyce Howells ym Methel
24 10.30 Coda ni

**Croeso**
Croeso i Seiriol a Janina Dafydd sydd wedi symud i Ger-y-cwm o Lanbadarn Fawr.

**Gorsedd**
Llongyfarchiadau mawr i Richard Owen ar gael ei anrhydeddu a'r Wisg Werdd yn Anrhydeddau'r Orsedd 2023.



## Priodas

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Manon Reynolds a John Evans briodwyd dydd Sadwrn 17 Mehefin ym Mhlas Nanteos.



**Dyrchafiad fel Dyfarnwr**
Llongyfarchiadau i Steffan Davies, Ger-y-cwm sydd wedi ennill dyrchafiad i Reng 1 Rhestr Dalent Dyfarnwr Cynorthwyol.

**Dyweddiad**
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Sara a Carwyn ar eu dyweddiad ddiwedd Mai.

**Melys moes mwy!**
Efallai fod rhai o ddarllenwyr *Y Tincer* wedi sylwi ar y cacennau a'r bwydydd blasus o bob math sydd ar werth yng ngarej Tymawr, Penrhyn-coch, gan gwmni o'r enw Aber Catering. Dyma holi'r perchennog, Mel Holmes, am ei busnes, a chael gwybod iddi sefydlu'r fenter yn wreiddiol yn y cyfnod clo dan yr enw Sweet Treats. Roedd cael busnes fel hyn yn freuddwyd ganddi hi a'i mam, ond yn drist iawn, dim ond ar ôl i Mel golli ei mam a chael cyfnod digon anodd yn bersonol dros adeg y clo, yr aeth hi ati o ddifri i wireddu'i breuddwyd. Mae Mel a'i theulu yn byw ym Mhenrhyn-coch.

Yn 2022 dyma newid enw'r cwmni o Sweet Treats i Aber Catering ac ehangu'r busnes, gan ddarparu bwydydd ar gyfer pob math o achlysuron – ciniawau busnes a phartïon teuluol, cacennau ar gyfer achlysuron arbennig – yn ogystal â chreu bocsys brecwast, pecynnau te pnawn ac ati.

Os yw hyn i gyd wedi codi chwant arnoch am ddanteithion melys, ewch i garej Tymawr i weld beth sydd ar gael. Mae cynnyrch y cwmni hefyd ar gael yng Ngorsaf Betrol Ponterwyd, siop Premier sydd ger y castell a'r un ar Ffordd y Gogledd yn Aberystwyth, ac yn siop Premier Tal-y-bont.

Os hoffech gefnogi busnes lleol ac am gysylltu ag Aber Catering, dyma'r manylion:
holmesm5@sky.com, neu 07463824623.
Mae tudalen Facebook y busnes yn werth ei gweld hefyd.

Pob dymuniad da i Mel, a gobeithio bydd y dyfodol yn llawn melystra!



**Cadeiriau arall**
Dyfarnodd y Prifardd Cyril Jones, Pontypridd mai enillydd Cadair Eisteddfod Gadeiriol Llanfachreth 2023 nos Sadwrn 10 Mehefin oedd y Parchedig Judith Morris, Penrhyn-coch am ei cherdd ar y testun 'Yfory'.

Yna nos Sadwrn 17 Mehefin enillodd gadair Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy, Llanrwst.

Llongyfarchiadau gwresog.



## Eglwys Sant Ioan Penrhyn-coch

Te hufen a mefus ac adloniant ysgafn.
**Sadwrn 8fed Gorffennaf**
Rhwng 3-5yp
Mynediad £6/£3.50
Raffl a stondin cynnyrch cartref.

Lawnsio sialens Sant Swithin – fydd yn cychwyn ar Orffennaf y 15fed – mwy o fanylion ar wefan Facebook yr Eglwys.




Marion Thompson, Penrhyn-coch – un o'r rhai gwblhaodd Her y Tri Chopa – gweler t.21




Llongyfarchiadau i Felicity Broadhurst o gangen Penrhyn-coch enillodd yng Ngwyl Merched y Wawr am gynllunio cerdyn Nadolig

**Arwain**

Bydd Sara Gibson yn un o arweinyddion llwyfan Gŵyl Gerdd Dant Caerdydd gynhelir yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro ar Dachwedd 11eg.

**Cymorth Cristnogol**

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at gasgliad Wythnos Cymorth Cristnogol Penrhyn-coch. Mae'r casgliad wedi cyrraedd £562 erbyn hyn, ac fe fydd ar agor hyd diwedd mis Mehefin. Gallwch roi ar Justgiving drwy chwilio am "Penrhyn-coch", neu gweler gwefan Trefeurig neu drwy siec (gweler *y Tincer* mis Mai).

**Pel-droed Penrhyn-coch**

**Eilyddion**

29/04 Eilyddion Llandrindod 1 Eilyddion Penrhyn-coch 0

06/05 Eilyddion Llanfair-ym-Muallt 2 Eilyddion Penrhyn-coch 0

09/05 eilyddion Penrhyn-coch 3 Eilyddion Rhaeadr 3

**Ffilmio**

Bu criw y rhaglen deledu 'Am dro' yn yr ardal yn ffilmio y dyddiau diwethaf. Roedd tro Gwilym Mason Evans yn cychwyn yn hen gartref y teulu -Glanrafon. Gwyliwch y gofod!

**Swydd newydd**

Dymuniadau gorau i Gwydion ap Ifan, y Felin, ar gael ei benodi yn Gydlynydd Rhaglen ARFOR gyda Chyngor Sir Ceredigion. Mae ARFOR yn fenter ar y cyd gan Gynghorau Sir Gâr, Ceredigion, Gwynedd ac Ynys Môn sy'n edrych i ddefnyddio mentergarwch a datblygu'r economi i gefnogi cadarnleoedd y Gymraeg a, thrwy hynny, cynnal yr iaith.



Lluniau: RBPhotography

Leigh Jenkins yn cyflwyno cwpanau er cof am ei dad Kevin (Bones) Jenkins i Dylan Tooze a Liwsi Curley – chwaraeawr a chwaraewraig y twrnament



Catrin Galbraith yn cyflwyno Tlws Chwaraewr dan 16 y Twrnament i Owain Llŷr Hywel.

## Cylch Meithrin Trefeurig

Yn ddiweddar cerddodd un o rieni y Cylch – Martineus Thomas – 43.9 cilomedr i godi arian i'r Cylch ac eilliodd un sydd yn gweithio yno – Wendy Griffiths – ei phen. Codwyd bron i fil o bunnoedd rhwng y ddau ar gyfer adnoddau i'r cylch. Diolch yn fawr iawn i'r ddau!






James Memorials

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

james.memorials@btconnect.com

GWASANAETH GARDDIO ROBERT GRIFFITHS

Am bob math o waith garddio ffoniwch

07813 338647

# Stori fer fuddugol Eisteddfod Penrhyn-coch 2023

Codaf fy mhen wrth weld drysau dwbl y Blac yn crynu, a'r gwynt yn mynnu dod i mewn at gynhesrwydd y bar. Caf gip ar y diferion glaw yn rasio am y gorau i lawr y ffenestri. Mae'r dafarn yn llawn heno – rhaid bod pawb – fel fi – 'di cael digon ar y tywydd. Caf lwnc arall o 'mheint wrth i griw swnllyd ruthro drwy'r drysau ac anelu at y bar, yn don o ddwndwr. Dwi'n nabod un neu o ddau o ran eu golwg. Caf nòd digon swta Gwion a galla i weld siâp y 'Shwmae' yn dod o'i geg, ond dim mwy. Mae Hywel hefyd yn fy ngweld a daw ataf, er i mi drio troi 'nghefn a wynebu'r ffordd arall. Dwi ddim yn un am fân siarad.

'Sut wyt ti a sut mae'n mynd?' Caf bwniad ysgafn ar fy nghefn. 'Dau beint, plis Megan.'

Dwi'n ddigon hapus bod y ferch wrth y til wedi dwyn sylw Hywel. Plygaf fy mhen eto a dychwelyd at ddiogelwch fy mheint.

Dwi wedi hen arfer. Dwi ddim wedi cael fy nerbyn yma, er 'mod i'n byw 'ma ers rhyw hanner blwyddyn bellach. Wedi dod i chwilio am waith fyddai'n talu digon i roi to dros fy mhen, dim byd mwy. Ro'n i'n lwcus o gael gwaith wedi i'r warws gau; dwi'n gwybod am sawl un fethodd, a hwythau bellach yn gwneud dim ond cicio'u sodlau.

Mae'r jobyn yma'n reit wahanol – dim silffoedd a fforc-lifft a bocsys enfawr hyd y to, dim peiriant yn cyfri'r eiliadau wrth redeg o dasg i dasg. Ac mae'r stafell dwi'n ei rhentu'n gwneud y tro. Mae 'na hanner dwsin ohonon ni'n byw yn Sea View. Bobl yr ymylon. Preswylwyr dros dro nes daw rhywbeth arall. Aros am fisa mae Mustafa ac Alya, yn y stafell drws nesa. Wn i ddim beth yw eu hanes nhw, ond o Syria maen nhw'n dod. Dyden ni ddim wedi gwneud mwy na chyfarch ein gilydd â rhyw hanner gwên, ond mae 'na stori fawr yn eu llygaid tywyll. Does dim smic yn dod o'u stafell wedi i'r drws gau. Dwi ddim yn holi mwy.

Ellie sydd yn y stafell gyferbyn â mi, yn wên i gyd a'i gwallt golau mewn cynffon dynn ar dop ei phen. Dwi'n cael 'haia Seth!' ganddi, a 'how's it going?' Dwi wedi'i gweld ar y til yn Tescos yn sgwrsio â phawb wrth sganio'r nwyddau ar wib, ond sŵn dagrau sydd i'w clywed min nos wedi i'r drws gau. Dwi dim yn holi mwy.

Mae 'na dri ar y llawr uwchben, ond wn i ddim pwy yden nhw; dim ond sŵn eu traed ar y styllod a grŵn undonog y teledu yn hwyr yn y nos dwi'n ei glywed. Mae hynny'n fy siwtio i'r dim. Dwi ddim yn bwriadu aros yma'n hir.

Mae môr o sŵn yn y Blac erbyn hyn, a'r gweiddi mynd a dod fel llanw a thrai. Yn y pellter dwi'n gallu clywed thymp thymp thymp y parti, a bloeddio canu a chwerthin. Ro'n i wedi clywed si fod y bòs wedi bwcio'r stafell fyny grisiau ar gyfer parti deunaw ei ferch, Mererid. Ches i ddim gwahoddiad, wrth gwrs. Un o'r gweithwyr di-nod ydw i, yn enw ar ffeil, yn rhif ar daenlen. Un o'r giwed mewn gwasgod lachar a het galed sy'n eistedd mewn twll o bortacabin ger y morglawdd, neu'r cerdded ar dop y waliau bob hyb a hyn. Un o'r rhai sy'n gwasgu'r botymau i agor y llifddor ac yn cadw llygad ar sgriniau'r camerâu.

Ylav sy'n rhannu shifft â mi. Dyn barfog, clên o Hwngari. Mae o yma yn y Blac hefyd, dwi'n sylwi. Reit yn y cefn. Un ddiod mewn man cynnes cyn cychwyn ei shifft, mae'n rhaid. Chwarae teg iddo. Does dim llawer o iaith yn gyffredin rhwng y ddau ohonon ni, ond dwi'n cynnig sigarét iddo ar ddiwedd shifft weithiau ac yn codi llaw neu fawd. Does dim pwynt trio dod yn fwy o ffrindiau; fydd yr un ohonon ni'n gwneud y jobyn yma'n llawer hirach.

Wrth i chwa o wynt wthio drysau'r dafarn yn fwy ffyrnig fyth daw bloedd o gymeradwyaeth ac ambell reg, a symuda pawb yn agosach at y canol. Maen nhw'n gwasgu o 'nghwmpas. Caf lwnc arall o 'niod wrth i'r criw fyny grisiau ddechrau morio canu 'Sweet Caroline', a rhai o'r yfwyr wrth y bar yn mynnu ymuno. Edrychaf o 'nghwmpas a gweld bod Ylav wedi mynd. Rhaid ei fod eisiau dechrau ei shifft yn gynnar. Mae gan y bòs ryw reol ddwl – rhaid cael dau wrth y morglawdd ddydd a nos. Rhyw rwtsh iechyd a diogelwch, medda fo.

Wrth glywed 'Yma o Hyd' yn codi'r to fyny grisiau, a dychmygu'r byrddau dan eu sang a'r gwydrau gorlawn, dwi'n penderfynu aros yng nghlydwch y bar am y tro. Fydd Gwyddno, y bos, ddim callach 'mod i awren fach yn hwyr yn dechrau gweithio. Wedi'r cyfan, bydd Ylav yno. Welith y bòs fawr o eisiau yr un morglawdd heno, yn ôl y chwerthin ddaw o'r parti.

'Megan,' dwi'n gweiddi er mwyn trio dal ei sylw. 'Rho beint arall yn hwn i mi, wnei di?' Estynnaf fy ngwydryn ati.

'Shifft hwyrach heno, Seithennyn?'

Codaf fy sgwyddau i ddangos fy nihidrwydd, a thapio fy ngherdyn ar y peiriant bach wrth ddiolch iddi. O leia mae Megan yn gwybod pwy dwi. Na, wneith cyrraedd awren yn hwyr heno ddim gwahaniaeth.

**Anwen Pierce**








YTincer@googlemail.com Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol


# Enwau lleoedd

## Angharad Fychan

O ddilyn y ffordd wledig sy'n codi o gefn gwesty'r Hafod ym Mhontarfynach i gyfeiriad Cwmystwyth, ymhen llai na milltir fe welwch dŷ ac adeiladau helaeth *Botgoll* ar y chwith.

Lleolir y fferm ar lan nant na chaiff ei henwi ar fapiau'r Arolwg Ordnans, ond gan mai *Aberbotgoll* oedd enw'r annedd a safai ychydig yn is i lawr y dyffryn gerllaw arllwysiad y nant i afon Mynach, gallai *Botgoll* fod yn enw ar y nant honno yn ogystal ar un adeg.

Digwydd *Botgoll* hefyd yn yr enw *Melin Botgoll* sy'n sefyll heddiw ar lan ogleddol afon Mynach, er ei bod hi'n ymddangos mai *Aberbotgoll* ar y lan ddeheuol oedd ei lleoliad gwreiddiol.




**Map Arolwg Ordnans 6" Ceredigion XI NE (1886)**
© Arolwg Ordnans (100064713)

Gellir olrhain yr enw yn ôl i ddechrau'r drydedd ganrif ar ddeg gan y digwydd mewn siarter sy'n tystio i Rys Ieuanc ap Gruffudd (ŵyr yr Arglwydd Rhys) gyflwyno tiroedd yn rhodd i Fynachlog Ystrad Fflur yn 1202.

Mae'n werth nodi bod *Botgoll* yn gorwedd o fewn tiriogaeth graens fynachaidd Cwmystwyth, a'i bod yn debygol i afon *Mynach* gerllaw dderbyn ei henw oherwydd ei bod yn nodi rhan o ffin y graens honno.

Arhosodd yr enw yn gymharol ddigyfnewid dros y canrifoedd: *Bothcollh* 1202 Siarter Ystrad Fflur; *Tythyn Botcoll* 1725 Papurau Stad Abertrinant; *Botgoll* 1826 Ewyllys Tyddewi 1826/53. Nid oes amheuaeth felly nad cyfuniad sydd yma o'r elfennau *bod* a *coll*.

Ystyr *bod* mewn enwau lleoedd yw 'annedd neu drigfan'. Fe'i ceir yn gyffredin iawn yn siroedd y Gogledd (er enghraifft *Bodedern*, Ynys Môn, *Boduan* yn sir Gaernarfon, a *Bodelwyddan*, sir y Fflint) ond mae'n brin iawn yn y Canolbarth. Yr hyn sy'n annisgwyl felly yw bod enghraifft arall ohono, *Bodtalog* (*bod+halog*), brin wyth milltir i'r dwyrain o *Fotgoll*, ar y ffordd sy'n croesi'r mynydd o Gwmystwyth i Raeadr Gwy.

'Llwyni neu goed sy'n dwyn cnau' yw *coll* ('hazel' yn Saesneg) ond efallai y bydd y ffurf unigol *collen* neu'r lluosog *cyll* yn fwy cyfarwydd. Os felly, ystyr *Botgoll* fyddai 'annedd y llwyni neu'r coed cyll'.

Mae'n ddiddorol bod Iwan Wmffre yn *The Place-Names of Cardiganshire* (2004; t.896) yn cofnodi traddodiad y byddai un o gynbreswylwyr *Botgoll* yn arfer canfod cnau cyll cyfan wrth dorri mawn mewn mawnog gyfagos.

Fodd bynnag, digwydd *Coll* hefyd fel enw personol, er enghraifft *Coll fab Collfrewy*, un o dri gwrddfeichiad ('un cryf sy'n cadw moch') Ynys Prydain yn y Trioedd. O ganlyniad, gellid dehongli *Botgoll* fel 'annedd yn perthyn i Goll', ac ategir hynny gan y ffaith bod yr elfen *bod* mewn enwau lleoedd yn cael ei dilyn yn aml gan enw personol.

Dug Iwan Wmffre gymhariaeth rhwng *Botgoll* ag enw lle tebyg yn Llydaw sef *Bokoll*, er bod hwnnw'n tarddu o'r Llydaweg *bod* 'llwyn' a *coll* 'collen'.

Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru
www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru

GWASANAETH GARDDIO MYNACH
**Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio**
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
**Ffoniwch Meirion:**
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman@yahoo.com

**R.J Edwards a'i Fab**
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân
01970 820149

SIOP Y PETHE
Llyfrau, Cardiau Cyfarch a Cherddoriaeth a llond llawr o Grefftau ac Anrhegion
**01970 617120**
Nawr yn cynnig gwasanaeth Cliciwch a Casglwch ar ein gwefan
www.siopypethe.cymru



**Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?**
y tincer
Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion
Cêt Morgan, Fferm Glanfrêd
cetmorgan@icloud.com
07966 510195

# Aber-ffrwd a Chwmrheidol

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Dafydd Morris, Neuadd Parc, Cwmrheidol ar farwolaeth ei ewythr, yr Arglwydd John Morris, cyn AS Aberafan.

**Diolch**
Dymuna John Dolgamlyn, ddiolch i'w berthnasau, cymdogion a ffrindiau am y cardiau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd ar achlysur ei ben blwydd arbennig yn ddiweddar ac hefyd am y cyfraniadau hael tuag at Apêl Ymchwil y Galon.

**Tŷ Glöyn Byw, Cwmrheidol**
Un o gyfranwyr Galwad cynnar dydd Sadwrn Mai 20 oedd Sion Dafis, Warden cynorthwyol Parc Gwledig y Gogarth – a brodor o Bonterwyd. Roedd wedi bod ar ymweliad efo'i dad a'i ferch 7 oed â Tŷ Gloyn Byw, Cwmrheidol.

Roedd Sion yn cofio sefydlu yr atyniad yn 2000 gan Neil Gale, y Rheolwr – oedd yn gweithio ar y pryd i Gyngor Cefn Gwlad Cymru. Fo arolygodd, gynlluniodd ac adeiladodd y Tŷ Gloyn Byw. Roedd y tri aelod o'r teulu wedi mwynhau yr ymweliad – a'r ferch eisiau dychwelyd pan fyddant yn ymweld â tad-cu y tro nesaf!

Un polytunnel sydd yna gyda yr hyn a elwir ' Rheol un bys' Lleolir potiau bach o neithder ar hyd y twnel ac o roi pys ynddynt ac o flaen yr ieir fach yr haf ceir profiad arbennig i'r ymwelydd. Roedd yn brofiad gwych i blant, i naturiaethwr fel Sion ac i'w dad.




Dosberthir taflen ar y ffordd i mewn a cheisir adnabod y gwahanol fathau sydd yna. Buont yna am dros bedair awr gan weld rhywogaethau arbennig sydd yna – fel Blue Morpho – un o'r rhywogaethau eiconig y fforestydd trofannol – wyth modfedd o hyd – sydd yn hedfan mor osgeiddig o gwmpas eich pen.

Mae'r lliw glas metalig yn rhoi ei henw i'r math yma- pan yn cau eu hadenydd maent ychydig yn cryptig.

Gosodwyd y safle i fyny fel fforest law ac mae yn bwrw glaw yna weithiau Mae'n gallu bod yn glos yn y twnel ond gellwch fynd a dod fel y mynnwch.

Roedd yn le i ymhyfrydu a rhyfeddu a chawsant brofiad hudol fel teulu yna.

Mae Tŷ Gloyn Byw ar agor rhwng 12 Chwefror a 30 Tachwedd 2023, saith diwrnod yr wythnos – 10.00-16.00 oriau gaeaf a 10.00-17.00 oriau haf.



Teulu Holmes, Penrhyn-coch yn ymweld â Tŷ Glöyn Byw











## Arddangosfa Uwchlaw ac Islaw

Diwedd mis Mai agorwyd arddangosfa Uwchlaw ac Islaw yng Nghapel Bethel ym mhen uchaf Cwmrheidol. Mae Ioan Lord wedi casglu llawer o hen greiriau a ddefnyddiwyd gan y mwynwyr yn yr ardal pan oedd y gweithfeydd yn eu hanterth. Bu yn brysur iawn yn eu dethol ac yn eu paratoi ar gyfer yr arddangosfa. Agorwyd yr arddangosfa gan Ben Lake AS ar Fai 20fed ac yna cafwyd hanes diddorol yr ardal gan Ioan. Cafwyd llawer o drafod a chymdeithasu. Yna nos Sadwrn Mehefin 3 cafwyd noson ddiddorol yng nghwmni Rhian Davies, Trefor Pugh a Rhiannon Ifans. Mae Rhian yn hanesydd cerddoriaeth ac wedi ymchwilio i hanes caneuon y mwynwyr. Yn ddiweddar bu hi a Peter Lord yn cydweithio i gyhoeddi llyfr *The Art of Musics* sydd yn olrhain hanes cerddoriaeth ac yn pwysleisio gwerth cerddoriaeth I ni y Cymry. Bu Trefor a Rhiannon, y ddau yn arbenigwyr ym myd canu gwerin yn ymchwilio i gefndir y caneuon ac yn eu canu yn swynol iawn. Noson ddiddorol iawn. Diolch i Louise ac Alice am drefnu y cyfan. Mae yr arddangosfa ar agor ob dydd Sul drwy apwyntiad tan diwedd Mehefin.

## Cyngor Cymuned **Geneur Glyn**

**Cofnodion ac Adroddiadau ar gael ar wefan y Cyngor**: cyngorcymunedgeneurglyn communitycouncil.wordpress.com

**Dyddiad y Cyfarfod**: 22.05.2023 yn Ysgoldy Bethlehem.
**Ymddiheuriadau**: 1
**Aelodau'r Cyhoedd**: 4

**Trafodwyd**:
**Cadeirydd**: Enwebwyd Rhodri Morgan fel Cadeirydd am y flwyddyn 2023-2024.
**Is-Gadeirydd**: Enwebwyd Pete James fel Is-Gadeirydd am y flwyddyn 2023-2024.
Diolchwyd i Carwen Hughes Jones am ei gwaith dros y flwyddyn diwethaf.
**Trafnidiaeth**:Cyng Hugh Hughes mewn trafodaethau ynglŷn yr amserlen bws.
**Materion Cyllid**: Adroddiad llawn ar gael ar wefan y Cyngor. Cytunwyd talu: Cyfraniad at: Gerddi Cymunedol Llandre, Pwyllgor yr Henoed, Ambiwlans Awyr Cymru, *Y Tincer,* Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn, Treftadaeth Llandre, Cylch Meithrin Rhydypennau, Ffrindiau Cartref Tregerddan, Mynwent Capel y Garn.
**Parc a'r Cyrtiau Tennis**: Gwaith yn parhau i ddatblygu'r parc. Trafodaethau gyda cwmnïau i ddarparu offer. Trafodaethau gyda Cyngor Sir Ceredigion yn parhau yng Les yr ardal.
**Cyfarfod nesaf**: Cynhelir cyfarfod nesaf o'r Cyngor ar 26 Mehefin 2023 yn Ysgoldy Bethlehem am 7.00yh.

Pauline Lucas: clercgeneurglyn@yahoo.com

# Adran Aberystwyth



**Llongyfarchiadau i Ensemble Adran Hŷn Aberystwyth ddaeth yn drydydd yng nghystadleuaeth Ensemble Lleisiol Bl. 7-9 – Owen Jac Roberts, Rhydyfelin; Steffan Jones, Penrhyn-coch a Gruffydd Sion, Llandre.**



**Parti Cerdd Dant Adran Aberystwyth ddaeth yn gyntaf yn y gystadleuaesth parti Cerdd Dant (Bl 6 ac iau). Cafodd yr Adran hefyd 2il wobr Parti Deulais (Bl 7, 8 a 9); 3ydd wobr i'r Parti Unsain (Bl 6 ac iau); 3ydd i Magi ac Ella am ddeuawd Cerdd Dant a 3ydd i Ensemble Lleisiol (Bl 7, 8 a 9).**

## Colofn **Ben Lake AS**



Does dim byd yn well gen i wneud ar benwythnos tawel na mynd i wylio Clwb Rygbi Llambed yn chwarae gartref, ond eleni dwi wedi bod yn ddigon ffodus i gael gwylio sawl camp chwaraeon ym mhob cwr o'r sir – o criced i bêl-droed ac o croquet i golff disg! A dwi wedi dod i sylweddoli pa mor bwysig yw clybiau chwaraeon lleol i'n cymunedau.

Mae mor braf gweld clybiau lleol yn mynd o nerth i nerth ers y pandemig. Mae Clwb Pêl-droed Llechryd er enghraifft yn gwneud gwaith gwych yn datblygu timau pêl-droed i ferched ac i unigolion anabl. Mae tîm pêl-droed 'Jumpers for Goalposts' yn Aberaeron yn dîm cynhwysol sy'n rhoi cyfle i unrhyw un gymryd rhan waeth beth yw eu hoedran, eu cefndir a'u gallu corfforol. Ac ydych chi wedi clywed am golff disg sy'n cael ei chwarae yn Felin Geri yn Cwm Cou? Golff disg yw'r gamp o daflu ffrisbi at darged a chwblhau cwrs o dargedau mewn cyn lleied o ergydion â phosibl. Rhowch gynnig arni os gewch chi gyfle rhywbryd!

Ond tra bod cynnydd diweddar wedi bod yn y nifer o ferched sy'n cymryd rhan mewn campau megis pêl-droed, criced a rygbi yng Nghymru, mae'n bendant angen gwneud mwy i gau'r bylchau sy'n bodoli rhwng dynion a merched pan mae hi'n dod i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgaredd corfforol, a chanolbwyntio ar ddarparu mwy o gyfleoedd o ansawdd i ferched a menywod ifanc gymryd rhan mewn chwaraeon.

Yn ogystal ag ehangu ein cylchoedd cymdeithasol, gall gyfrannu at fywyd ein clybiau chwaraeon lleol hefyd ddysgu sgiliau cymdeithasol gwerthfawr i ni yn cynnwys sgiliau cydweithio, cyfathrebu, trefnu ac arwain. Mae ein clybiau chwaraeon hefyd yn chwarae rhan hanfodol ym mywyd ac ysbryd ein cymunedau gwledig – yn cefnogi'r economi leol, yn ategu at y cyfleoedd sy'n cael eu darparu gan ysgolion ac yn dod â phobl o bob oed a chefndir ynghyd i ddathlu pan ddaw llwyddiant i'r tîm, ac i gysuro pan fydd y canlyniadau'n siomedig.

Llongyfarchiadau i bob clwb sydd wedi bod yn weithgar eleni a diolch i'r myrdd o wirfoddolwyr sydd wrthi'n cydlynu, hyfforddi, trefnu a chefnogi'r chwaraewyr.

Er bod y tymor chwaraeon yn dirwyn i ben, mae digon o gyfleoedd ar gael i gadw'n heini a mwynhau'r awyr agored dros fisoedd yr haf. Mae 2023 yn nodi 15 mlynedd o Lwybr Arfordir Ceredigion, felly os nad ydych chi wedi bod eisoes, beth am fentro i gerdded ar hyd un o asedau prydferthaf y sir eleni? Yn ogystal a cherdded llwybr yr arfordir a chrwydro'r mynyddoedd, rwyf hefyd yn edrych ymlaen at dymor y sioeau amaethyddol sydd o'n blaenau – enghraifft arall o gymunedau yn dod at ei gilydd i ddathlu yr hyn sy'n wych am gefn gwlad.

# LLE MAE NHW NAWR?

Byddaf yn cyrraedd carreg filltir nodedig ym mis Medi eleni: ym mis Medi 1983 yr ymgartrefais yn Ffrainc am y tro cyntaf. Ar ôl y blynyddoedd fel myfyrwraig ym Mangor a minnau newydd raddio yn y Ffrangeg, symudais o Gymru i ddinas Paris. Doedd gen i ddim syniad ar y pryd y byddwn yn trafeilio hyd a lled Ffrainc, yn dod i adnabod pentwr diri o bentrefi a threfi, pob un ohonynt â'u hatyniadau swynus, eu cymeriadau, eu tai crand a'u tyddynnod a oedd yr un mor swmpus. Mae deugain mlynedd wedi hedfan heibio a'r daith yn dal i fod yr un mor hwylus.

Ym Mharis y dechreuais ar fy ngyrfa yn dysgu Saesneg ac fel nifer o Gymry, Albanwyr, Gwyddelod, Saeson ac Americanwyr a lusgai'u traed ar hyd strydoedd y ddinas y pryd hynny, doedd dim amdani ond ymweld â phob un ysgol preifat oedd yn cynnig gwersi Saesneg i oedolion yn y gobaith o gael gwaith. Rhaid cofio nad doedd y ffasiwn beth a'r wê nôl yn nechrau'r '80au, felly fflitian o un ysgol i'r llall, hefo CV papur yn eich llaw oedd yr unig ffordd o ddenu sylw at eich holl dalentau. (Wrth edrych yn ôl ar fy ngyrfa, rwy'n hollol bendant mai'r wê sydd wedi trawsnewid pethau fwyaf.) Cyn pen tipyn cefais swydd mewn ysgol nepell o'r Champs Elysées, ardal swancus yn llawn siopau dillad moethus â pherchennog yr ysgol yn parcio'i Rolls Royce lliw arian y tu allan i'r adeilad bob dydd – er nad oeddem ni'r athrawon yn ennill digon i fedru prynu Citroen 2CV! Cawn fynd ar dramp dros Baris i roi gwersi i'r 'disgyblion' yn eu swyddfeydd – roeddwn yn 'nabod y métro fel cefn fy llaw – yn eu plith cwmnïau enwog fel y cynhyrchydd persawr a cholur Yves Rocher, y cwmni trafnidiaeth rhyngwladol Hapag Lloyd neu'r cwmni fferyllol Roussel Uclaf. Dysgais lawer am fyd busnes yn Ffrainc. Dysgais fwy byth am ddanteithion Paris. A dysgais werthfawrogi'r cyfleuoedd lawer ym myd diwylliannol y brifddinas, boed nhw'n sinemâu, amgueddfeydd neu brifysgolion.

Ar ôl dwyflwydd ym Mharis, daeth newid ar fyd. Penodwyd fy nghyn-wr i swydd newydd yn Aix en Provence, felly dyma godi'm mhàc a ffwrdd â mi am ychydig dros ddwy flynedd i Brifysgol Aix a Chyfadran y Gyfraith. Dwi'n



cofio'n iawn y bore cyntaf yn Aix: yr haul yn dechrau crasu'r dref ben bore, minnau'n disgyn o'r gwesty i yfed coffi mewn café bach ar sgwâr y farchnad flodau ac yn prynu papur newydd Libération. Pennawd torcalonnus yn sôn am farwolaeth yr actores Simone Signoret roeddwn yn ei hedmygu gymaint. Wrth edrych yn ôl ar y blynyddoedd hudolus yn Aix, daw geiriau Signoret i'r côf: "La nostalgie n'est plus ce qu'elle était", "nid yw hiraeth fel y bu", a minnau'n gorfod cyfaddef pan ês yn ôl i Aix ryw ugain mlynedd wedi hynny bod y dref wedi'i thrawsnewid: siopau bach bwyd, fel yr un yn gwerthu pasta ffres, wedi cau â rhyw hen Starbucks neu gilydd wedi cymryd eu lle. Mae'r rhôd yn troi, a rhaid symud ymlaen.

Wedi'r dyddiau heulog ym Mhrofens, euthum yn ôl i Baris am ryw bum, chwech blynedd. Ail-ymgymryd yn y gwaith dysgu mewn ysgolion preifat, ond erbyn hyn, roedd gen i fwy o brofiad mewn pynciau mwy arbenigol. Roedd gen i ddiddordeb ers tipyn yn y diwydiant trafnidiaeth, felly bûm yn dysgu Saesneg i oedolion o'r maes hwnnw yn ystod y blynyddoedd ym Mharis. Ym Mharis hefyd y dechreuais ar ail yrfa fel cyfieithydd. Diolch i Sheelagh Thomas, cyd-ddisgybl â mi yn Ysgol Penweddig a oedd erbyn hyn yn gweithio i gwmni cyhoeddi yn Llundain, euthum ati i gyfieithu dau lyfr o'r Ffrangeg i Saesneg. A chael blâs ar y gwaith! Cyn gadael Paris llwyddais i argyhoeddi hen ffrind o Aix y byddai cyfieithiad i'r Ffrangeg o Un Nos Ola Leuad yn drysor yn y gyfres newydd yr oedd hi wrthi'n lansio hefo'r cyhoeddwr Actes Sud yn Arles, yn ne Ffrainc. Ffwrdd â mi a'r gwr i siarad â Mati Prichard, gweddw Caradog, yn Llundain. Cawsom sêl ei bendith – a noswaith bythgofiadwy yn ei chartref yn St. John's Wood! Cyhoeddwyd Une nuit de pleine lune yn 1990, un o'r ychydig nofelau cyfoes o'r Gymraeg sydd i'w darllen yn Ffrangeg.

Ganwyd fy nwy merch ym Mharis. Pan ddaw plant i'r byd, mae hi bron yn ddyletswydd ar y rhieni i sicrhàu y byddant yn rhan o gymuned lewyrchus a all feithrin eu gobeithion, lle medrant fwrw gwreiddiau a ffynnu. A ni fel teulu wedi symud i dref fechan ar gyrion Paris, daeth hiraeth am lan y môr. Ychydig ar ôl geni Louise, yr ieuangaf, symudsom fel teulu i Frest, yn Llydaw. Hannai fy nghyn-wr o Lydaw, felly roedd yr awydd i sicrhàu addysg yn y Llydaweg yn sbardun ychwanegol.

Os oes un man yn Ffrainc dwi'n meddwl fel cartref, Brest yw'r lle hwnnw. Mae darllenwyr Y Tincer eisoes wedi darllen am fy nghysylltiadau cryf â'r ddinas – sgwennais bwt yn 2011 pan oeddwn ar fin ymadael â Brest ar ôl derbyn swydd ym Mhrifysgol Caen, yn Normandie. Ond dyma fi'n ôl ym Mrest ar ôl saith mlynedd gyda'r 'gelyn' – mae'r elyniaeth chwedlonol rhwng y Llydawyr a'r Normanwyr yn hollol wir! – â minnau fel petawn wedi rhoi pâr o 'sgidiau cyffyrddus yn ôl am fy nhraed, cymaint yr wyf yn ymsuddo nôl i hen lwybrau cyfarwydd. Beth yn union yw'r atyniad? Wel, mae fy swydd yn Adran Ieithoedd Modern Prifysgol Brest yn golygu swmp o waith fel uwch-ddarlithydd Efrydiau Prydeinig. Ond mae gweld ymateb y genhedlaeth ifanc yma ym Mrest i'r cyrsiau ar y 'Swinging Sixties' neu 'Prydain Thatcher' yn pery syndod gan fod y pynciau yn hanes byw i mi ond i'r myfyrwyr, mae fel petawn yn sôn am oes y deinosoriaid! Erbyn hyn, rwyf hefyd yn dysgu Cymraeg yn y Brifysgol. Mae'r dosbarth dysgwyr eleni yn cynnwys myfyrwyr o bedwar ban y byd, o Rwsia, Chile a Zimbabwe.

Cychwynnais y pwt gan ateb y cwestiwn 'Ble maen nhw nawr?' ac mae'n sicr mae'r cwestiwn nesaf yn ei sgîl yw 'A ddaw hi'n nôl i Gymru?' Mae'r ateb rhywsut yn syml: dwi ddim yn teimlo fy mod erioed wedi gadael bro'r Borth. Mae Cymru yn rhan annatodadwy ohonof, ble bynnag yr wyf yn byw.

Mae Gareth, brawd,Carys yn dal i fyw yn Y Borth ac yn gweithio i Huws Gray yn Bow Street.

# CYLCH CINIO




Troi am Glwb Pêl-droed Penrhyn-coch fu hanes aelodau'r Cylch Cinio ar nos Wener Mehefin 9fed ar noson braf o haf am bryd blasus o fwyd a chwmnïaeth ddifyr.

Y Prifardd a'r cerddor amryddawn Twm Morys, Llanystumdwy oedd ein gŵr gwâdd ac fe lwyddodd i rannu ei athrylith drwy siarad am Y Gôg neu'r Gwcw a hynny mewn ffordd wahanol a difyr iawn. Medrai restri enw'r gwcw mewn degau o ieithoedd gwahanol a dyfynnu cerddi ar y thema o bedwar ban y byd, a hynny ar ei gof. Roedd yn wybodus iawn am gyfeiriadau at y gôg mewn cerddi ac alawon gwerin Cymraeg dros y canrifoedd, rhai yn gyfarwydd ac eraill yn llai hysbys.

Nid bob nos y bydd rhywun yn cael y cyfle i dreulio noson yng nghwmni Prifardd ac roedd hon yn noson gofiadwy a hwyliog iawn. Mae'r cyfuniad o fardd a chanwr a chymeriad lliwgar yn gallu cyfoethogi cymdeithas ac mae llwybr ei fywyd hyd yma yn un amrywiol iawn. Cafodd ei eni yn Rhydychen a'i fagu yn Llanystumdwy yng Ngwynedd ac yno cafodd ei addysg gynradd, bu'n ddisgybl yn yr Amwythig cyn dychwelyd i Gymru i Ysgol Gyfun Aberhonddu i astudio ar gyfer lefel A Cymraeg ac wedyn i gael ei radd yn y Brifysgol yn Aberystwyth mewn Astudiaethau Celtaidd. Treuliodd ddegawd yn Llydaw a bu'n darlithio ym Mhrifysgol Rennes. Mae wedi cyhoeddi dwy gyfrol o farddoniaeth a dwy gyfrol arall ar y cyd gyda'i riant Jan Morris. Enillodd gadair yr Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod yn 2003 am ei awdl *Drysau*. Twm yw golygydd y cylchgrawn *Barddas* ac mae'n adnabyddus fel prif ganwr *Bob Delyn a'r Ebillion*

Wrth ddiolch iddo ar ran yr aelodau disgrifiodd Cynog Dafis Twm Morys fel cymeriad o dalent aruthrol ac aml ochrog gan godi'r cwestiwn a fyddai Cymru yn bod heb ganeuon gwerin am i'r deffroad yn y traddodiad gwerin gyfrannu yn helaeth at barhad ein ffordd o fyw fel cenedl.

Enillwyd y raffl gan Dewi Hughes, Llanbadarn Fawr.

Bydd cyfnod y Cadeirydd John Williams yn dod i ben yng nghyfarfod mis Gorffennaf 2023 a chyhoeddwyd bod enw wedi ei dderbyn i'w ystyried ar gyfer Is-Gadeirydd y Cylch Cinio. Dymunwyd yn dda i Paul Davies a fydd yn dilyn Vaughan Griffiths yn y gadair ymhen y flwyddyn, yn ôl y drefn arferol.

Gwnaeth Geoff Davies apêl ar ran Rali Geir Ceredigion am wirfoddolwyr i stiwardio'r rali sydd i'w chynnal ar ddechrau Medi.

Byddwn yn cyfarfod eto ar nos Wener, Gorffennaf 14eg.

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

Croeso i deuluoedd
6 teledu gyda Sky Sports
Lle i eistedd tu allan a bwyty mawr
Bwrdd 'pool' a byrddau darts
Bwyty a Bwyd wedi'i gludo ar gael am ddim
TAFARN Y ROOSTERS
HOME OF/CARTREF I CPD PENRHYNCOCH FC
01970 828 992

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Laurence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, cardiau cyfarch siop drwyddiedig
01970 828312

Gwe Cambrian Web
Cwmni lleol o Aberystwyth sydd yn creu gwefannau dwyieithog a gwasanaethau marchnata digidol ar gyfer busnesau bach a mudiadau.
Cysylltwch heddiw!
cambrianweb.com | 01970 623 906 | info@cambrianweb.com | @gwecambrianweb

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
LLWYNDAFYDD,
CAPEL BANGOR
ABERYSTWYTH

Crefftau Pennau
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau Ac Anrhegion
Ar agor
Llun-Sadwrn
10.00-5.00
Brecwast ar gael
01970 820 050

# Capel Bangor / Pen-llwyn

**Suliau Capel Pen-llwyn**

*Gorffennaf*

2 Parch Eifion Roberts 3.00
9 Dr. John Tudno Wms 10.00
16 Dr. Watcyn James 5.00
23 Oedfa'r Ofalaeth 10.00 (Capel Seion)
30 Dr. Rhidian Griffiths 10.00

*Awst*

6 Dr. Watcyn James 10.00
20 Parchg Ifan M. Davies 10.00

*Medi*

3 Oedfa'r Ofalaeth 10.00 (Capel Pen-llwyn)
10 Parch Judith Morris 10.00
17 Dr. Watcyn James 2.00

**Priodas Ddeiamwnt**

Llongyfarchiadau calonog i Maldwyn ac Anne James wrth iddynt ddathlu chwe deg mlynedd o fywyd priodasol yn ddiweddar. Ble mae'r blynyddoedd wedi mynd dwedwch. Dymunwn bob bendith arnoch i'r dyfodol "fe fydd cwmniaeth yn parhau, nid oes unigrwydd lle bo dau".

**Colli Yr Arglwydd John Morris**

Daeth y newydd trist ar y 5ed o Fehefin am farwolaeth Yr Arglwydd John Morris, cyn Aelod Seneddol Aberafan, a fu farw yn 91 mlwydd oed.

Brodor o Ben-llwyn oedd John, bu yn ddisgybl yn Ysgol Gynradd Pen-llwyn pan yn aros gyda'i fam-gu a'i ddat-cu yn Dolcniw ac yn aelod ffyddlon o'r capel. Aeth ymlaen wedyn i Ysgol Ramadeg Ardwyn yn Aberystwyth ac un o'i gyfoedion yno oedd yr Arglwydd Elystan Morgan. Mae'n debyg ei bod yn bleser clywed y ddau yn cymryd rhan mewn gwers o drafodaethau yn y dosbarth ac i'r athro ragdybio y byddai'r naill neu'r llall yn brif weinidog rhyw ddydd. Mynychodd golegau Aberystwyth a Bangor cyn gorffen yng Nghaergrawnt yn astudio'r gyfraith. Gwleidydd a Bargyfreithiwr oedd John ac fe fu yn gwasanaethu dan dri Phrif Weinidog -sef Harold Wilson, James Callaghan a Tony Blair.

Roedd yn gyn Ysgrifennydd Cymru a chafodd yr anrhydedd yn ogystal o fod yn Dwrne Cyffredinol. Roedd John yn ogystal a'i ffrind Elystan yn leisiau brwd iawn dros ddatganoli a phleser oedd iddynt weld y cyflawniad yn y nawdegau. Wedi treulio dros ddeugain mlynedd yn Aelod Seneddol yn Aberafan, cafodd ei ddyrchafu i Dy'r Arglwyddi, lle y bu am yr ugain mlynedd nesaf. Roedd ei gefndir a'i wreiddiau yn bwysig i'w gyfnod mewn gwleidyddiaeth ac ymfalchiwn yn y ffaith mai o Ben-llwyn y tarddodd y seren ddisglair yma. Cydymdeimlwn a'r teulu yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

**Profedigaeth**

Cydymdeimlwn fel ardal â Mr. Tim Palmer, Tynffordd Isaf, a'r teulu wrth iddynt golli Mam Tim yn ddiweddar. Roedd ei fam yn byw yn Thane, Rhydychen ac yn 87 mlwydd oed.

'Rydych yn ein meddyliau ar yr adeg drist yma yn eich hanes. Mae Tim yn berchen ar fusnes Gwenyn Cwm Melindwr, dymunwn yn dda iddo yn ei fenter newydd.

**Newydd ddyfodiad**

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Hannah ac Aled Humphreys, Y Fron ar enedigaeth William Celt yn ddiweddar. Mae Martha Gwen wrth ei bodd efo'i brawd bach newydd, a'r cartref newydd wedi ei gwblhau mewn pryd.

**Eisteddfod yr Urdd**

Llongyfarchiadau i bob un a fu yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, yn Llanymddyfri, rhai â chysylltiad ag ardal *y Tincer* ac eraill o fewn dalgylch ysgolion y Sir. Rydym yn falch iawn drosoch un ac oll.

## Bedydd

Roedd yn braf gweld Eglwys Sant Afan yn llawn o deulu a ffrindiau ac aelodau'r eglwys a ddaeth ynghyd ar achlysur bedydd Nansi Meryl a Fredi James Williams, sef plant bach Sioned a Wil, Cefnllidiart. Mae Sioned yn ferch i Sion Griffiths, Dolgelynnen a Wil yn fab i Fred a Verena Williams, Capel Bangor. Rhieni bedydd Nansi yw Rhiannon Edwards, Rachel Williams ac Alan Ingram a rhieni bedydd Fredi yw Ceris Cutter, Gemma Richards a Llyr Griffiths. Cafwyd gwasanaeth hyfryd yng ngofal y Ficer Alun Evans. Wedi'r gwasanaeth aeth y teulu a'r ffrindiau i Dafarn Y Maes, Capel Bangor lle roedd Angharad, Castell Du, Alltyblaca (ond sydd nawr yn byw yn Llanddewi) wedi paratoi "Hog Roast".



Hefyd roedd Margaret Greenhouse, Tafarn y Maes wedi gadael iddynt ddefnyddio'r holl gyfleusterau yno. Buont yn lwcus i gael diwrnod braf ac roedd y plant wrth eu bodd. Pob dymuniad da iddynt fel teulu.



BRIDGE HOUSE CLEARANCE

Gardd neu Sied – Gwaredu Ysbwriel
Cartrefi a Busnesau
Trwydded i Gludo Gwastraff
Gwerthu eich ty? Gallwn ei glirio
Yswiriant llawn, Pris am ddim

f 07792457816/01974 261758

**Sioe Aberystwyth**
Llongyfarchiadau i Jack Hughes am ennill yr ail a'r drydedd wobr am ddosbarth 89 yn Sioe Aberystwyth – 'Eitem wnaethpwyd yn yr ysgol' am ddau ddarn cerameg wnaeth yn yr ysgol.

Roedd un o'r darnau hefyd wedi ennill yng nghategori cerameg Eisteddfod yr Urdd, felly roedd Jack yn cynrychioli Ceredigion. Daeth dau arall o Ysgol Pen-llwyn yn 2il (Florence Richards) a 3ydd (Phoebe Davies).




**Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol**

## Cyngor Cymuned **Tirymynach**

Bydd bwlch mawr yn y Cyngor yn dilyn marwolaeth sydyn y Cynghorydd Dewi Evans, a bydd nifer o fudiadau a chymdeithasau yn y gymuned yn gweld ei eisiau'n fawr. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at y teulu.

Ni chynhaliwyd cyfarfod o'r cyngor ym mis Mai am nad oedd noson gyfleus i nifer digonol o'r cynghorwyr ddod at ei gilydd.

Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd **29 Mehefin**, yn Neuadd Rhydypennau, 7.30. **Cyfarfod Cyhoeddus Blynyddol** fydd hwn, ac mae croeso cynnes i unrhyw un ei fynychu. Dewch i drafod dyfodol eich cymuned a chynnig syniadau!

# Adolygiad

Daniel Davies *Y trên bwled olaf o Ninefe*, Gwasg Carreg Gwalch, 2023. 188t.. £8.50

Pobl anghyfforddus yn eu cymunedau ydi prif gymeriadau'r chwe stori yng nghyfrol ddiweddaraf Daniel Davies. Mae'n awdur cynhyrchiol a hon yw ei ddeuddegfed cyfrol. Ef oedd enillydd Gwobr Goffa Daniel Owen yn 2011 ac y mae hon, fel rhai o'i gyfrolau eraill, wedi dod yn agos at y brig mewn cystadlaethau eisteddfodol. Cylch o straeon a geir yma, a chymeriad pob stori yn ymddangos fel is-gymeriad yn y stori flaenorol. Ymson y gyrrwr tacsi, y gyn-weithwraig siop, gweithiwr ffatri gaws, athrawes, disgybl a myfyriwr yw'r straeon, a phob un o'r cymeriadau'n adrodd ei hanes ac yn cyfiawnhau ei weithredoedd – rhai ohonynt yn ddigon annymunol.

Nid mewn rhyw nefoedd fach y mae'r chwech hyn yn byw, nid "Cymru fach" neis neis mo'u Aberystwyth, Llanbed a Thyddewi, ond Ninefe. Nid yn aml mae rhywun yn troi at broffwydoliaeth Nahum yn y Beibl, sy'n dair pennod o fygwth barn ar drythyllwch a thwyll, ond y mae Daniel Davies wedi rhoi dwy adnod o'r broffwydoliaeth, un ar ddechrau'r gyfrol a'r llall ar y diwedd. Cymru digon annymunol sy'n cael ei phortreadu a hynny gyda hiwmor tywyll – yn dywyll fel y fagddu ar adegau. Ar ymylon y Gymru hon y mae'r chwe chymeriad yn byw eu bywydau, heb wir berthyn, heb wir fod eisiau perthyn, ac yn eu ffyrdd eu hunain yn ffoi rhagddi.

Mae'r gyfrol yn hynod ddarllenadwy gyda'r cymeriadau yn lliwgar a diddorol. Mae'r bioden yn y stori gyntaf yn cael ei disgrifio fel un fyddai yn toddi i'r dorf, un "'sen i'n tynnu selfie 'sen i ddim yn y llun", ond mae'r cymeriad ddaw i'r golwg yn llawer iawn mwy diddorol.

Mae'r bioden yn taflu ei chysgod dros stori olaf y gyfrol yn ogystal. Mae Mari, yn yr ail stori, wedi ei phortreadu'n ddoniol a difyr dros ben, ac mae'r hiwmor tywyll angladdol yn gynnes ac yn ddeifiol o ddychanol yr un pryd, wrth iddi adolygu a rhoi marciau o ddeg am y gwasanaethau angladd. Mae hon yn stori gofiadwy a chyda thro hynod o dywyll ar y diwedd sydd yn cynnil egluro ei hymddygiad.

Ond tra bod anwyldeb y stori honno yn glir, mae arswyd stori Janus yn ysgytwol. Stori y disgybl disglair, prin iawn ei ffrindiau yw hon, ac y mae ei chymeriad oeraidd, trefnus yn gyrru ias i lawr asgwrn cefn rhywun. Ond yn annisgwyl, ac efallai yn rhy daclus, fe glywir stori arall am ei hanes wedi iddi ffoi o'r Ninefe oedd yn Nhyddewi.

Darllenais y gyfrol mewn dim o amser. Mae'r ysgrifennu yn glir ac yn llifo'n rhwydd, a'r disgrifiadau yn gynnil ac ambell sylw yn crynhoi sefyllfa'n grefftus. Roedd y tri beirniad a osododd fersiwn o'r gyfrol yn ail yng nghystadleuaeth y Fedal Ryddiaith yn Nhregaron yn teimlo mai yr un llais oedd yn y chwe stori, a bod hynny yn wendid, gan awgrymu bod yr awdur fel pypedwr yn arddangos ei gymeriadau. Ond i mi, efallai mai dyma gryfder y gyfrol, ac onid dyma ydi natur dychan? Nid portread llawn o gymeriad a geir yma ond yn hytrach cartŵn. Nid Ninefe yn ei chyflawnder oedd Nahum yn ei phortreadu, ond yr elfennau oedd yn bwysig iddo ef er mwyn gyrru ei neges – yn yr un ffordd mae'r cymeriadau yn fyw ac yn lliwgar yn y gyfrol, ond yr elfennau sydd yn portreadu Ninefe Daniel Davies sydd i'w gweld amlycaf, a hynny sydd yn gwneud y dychan yn llwyddiannus.




Roedd Bertold Brecht yn mynnu na ddylai neb uniaethu efo'i gymeriadau ond yn hytrach sefyll yn ôl a gweld pwy a beth oeddynt, ond ar waethaf hynny uniaethu yn emosiynol efo'i gymeriadau y mae rhywun. Digon tebyg ydi cymeriadau'r nofel hon; maen nhw yno i ddatguddio'r gwawdlun, ond eto, oherwydd crefft yr ysgrifennu rydach chi'n mynnu teimlo'r cyfan gyda nhw hefyd.

Cyfrol i'w mwynhau, i gael ein hysgwyd ganddi ac i'n hannog i holi ein hunain. Efallai fod Nahum a Daniel Davies yn nes at ei gilydd nag y byddai rhywun yn ei ddisgwyl.

**John Roberts**

Adolygiad oddi ar www.gwales.com, trwy ganiatâd Cyngor Llyfrau Cymru.

Enillodd Wobr Goffa Daniel *Owen yn 2011; daeth ei nofelau Pele, Gerson a'r angel, Gwylliaid Glyndwr,* ac *Yr Eumenides* (2017) yn agos i'r brig yn yr un gystadleuaeth.

Y gyfrol hon yw ei ddeuddegfed lyfr a'r gyfrol gyntaf o storïau byrion ers *Twist ar ugain* (2006)

# Bow Street

**Suliau'r Garn**
**10.00**

*Gorffennaf*
2 Rhidian Griffiths
9 Bugail
16 Bugail
23 Oedfa'r Ofalaeth – Seion
30 I'w drefnu

*Awst*
6 Noddfa
13 Bugail
20 Noddfa
27 Lyndon Lloyd

*Medi*
3 Oedfa'r Ofalaeth – Pen-llwyn
10 Bugail
17 Rhidian Griffiths
24 Bugail

**Suliau Noddfa**
(Pob Oedfa am 10.00)

*Mehefin*
25 Richard Lewis

*Gorffennaf*
2 Uno yn y Garn
9 Richard Lewis. Cymundeb.
16 Pererindod.
23 Richard Lewis
30 Uno yn y Garn

*Awst*
6 Beti Griffiths
13 Uno yn y Garn
20 Karen Owen
27 Uno yn y Garn

*Medi*
3 Richard Lewis. Cymundeb.
10 Uno yn y Garn
17 Cyfeillach
24 Richard Lewis

## Capel Noddfa



Roedd cyfarfod 'Cyfeillach' mis Mai dan ofal Arwel a Leila George a'r thema a ddewiswyd oedd Gŵyl y Pentecost a dathliadau'r Sulgwyn. Roedd hi'n hyfryd cael cwmni Heledd oedd gartref o Belfast. Gan gychwyn gyda disgrifiad Pennod 2 Actau'r Apostolion o'r digwyddiad rhyfeddol ar ddydd cyflawni cyfnod y Pentecost cafwyd myfyrdod ar ystyr y gair Pentecost ac arwyddocad y digwyddiad. Aeth Arwel ymlaen i drafod sut y mae rhai emynwyr fel J. J. Williams a Dan Lynn James wedi adlewyrchu'r digwyddiad yn eu emynau ac yna cafwyd atgofion difyr o'r Sulgwyn yng nghyfnod ei blentyndod yng Nghefn Craig Parc, Cwm Tawe.

Aethpwyd a ni'n ôl i'r chwedegau a'r cymanfaoedd canu yn eu bri yn y cwm. Roedd hi'n amlwg fod gan Arwel atgofion pleserus iawn am ddilyn y sol-ffa ac am y wledd o frechdanau heb sôn am y jeli a'r blancmange ac am yr hwyl oedd yn dilyn ar y llungwyn. Gwahoddwyd y gynulleidfa i rannu atgofion personol am y Sulgwyn a diddorol oedd clywed am y traddodiadau mewn gwahanol ardaloedd o Gymru wrth ddathlu Gŵyl y Pentecost. Bydd Cyfeillach Mehefin yng ngofal Hywel.

**Cofio**
**DEWI EVANS**
**1942 – 2023**

Wrth gofio am Dewi nodwn bod dechrau'r daith yn ei hanes yn mynd a ni yn ôl i ardal Tal-y-bont, ac yn benodol i Faesglas ym 1942. Wedi derbyn ei addysg yn lleol yn Nhal-y-bont ac Ardwyn dechreuodd Dewi weithio ar rai o ffermydd yr ardal gan gynnwys yn Llety Llwyd. Rhaid cofio bod Tŷ Nant wedi bod yn rhan fawr o fywyd Dewi ar hyd y blynyddoedd ac mai fel Dewi Tŷ Nant y byddai llawer yn ei adnabod. Byddai eraill yn cyfeirio ato fel Dewi White Lines, Dewi Sweeper a Dewi Gritter, a hynny yn adlewyrchu y blynyddoedd a dreuliodd yn



**Dewi a Davina**

gweithio i'r Cyngor Sir hyd ei ymddeoliad. Cyn mynd at y Cyngor Sir yr oedd wedi treulio cyfnod ym maes adeiladu ac wedi bod yn gweithio ar dai Bryncastell ar un adeg. Wedi priodi Pat yn 1974 ymgartrefodd y ddau ym Mryncastell a dyna gefndir adnabod Dewi fel Dewi Pat a Dewi Bryncastell.

Yn feddiannol ar bersonoliaeth gyfeillgar yr oedd Dewi yn berson cymdeithasol iawn ac yr oedd y dyrfa luosog ddaeth i'w wasanaeth angladdol a gynhaliwyd yng Nghapel Bethel, Tal-y-bont, ar y 15fed o Fai yn dystiolaeth bendant o hynny. Ac wrth feddwl am yr agwedd gymdeithasol honno mae'n werth nodi ei fod wedi bod yn aelod gweithgar ac ymroddgar o Glwb Ffermwyr Ieuanc Tal-y-bont yn ei ieuenctid. Bu Sioe Tal-y-bont yn rhan fawr o'i fywyd hefyd o'r dechrau'n deg; rhoddodd dros hanner can mlynedd o wasanaeth iddi ac i'r Pwyllgor. Hyn i gyd yn adlewyrchiad clir o'i ddiddordeb byw yn y byd amaethyddol a phan gofiwn bod treialon cŵn defaid, aredig a phlygu shetin ymysg ei ddiddordebau hefyd daw hynny'n fwyfwy amlwg. Ac wrth sön am blygu sietin nodwn iddo gael ei gydnabod yn bencampwr ar y gamp ym 1985. Agwedd arall ar ei bersonoliaeth gymdeithasol oedd y ffaith ei fod yn aelod ffyddlon o Gyngor Cymuned Tirymynach ers blynyddoedd ac yn feddiannol ar wybodaeth am ffyrdd yr ardal oedd yn codi arswyd ar y Cyngor Sir ar adegau. Yr oedd wedi dod yn aelod o Bwyllgor Henoed Bow Street a Llandre yn ddiweddar ac yn frwdfrydig iawn parthed yr hyn sy'n cael ei gyflawni gan y Pwyllgor.

Rhaid cofio bod pêl-droed yn golygu llawer iddo hefyd, yn gefnogwr brwd o Manchester United rhoddodd flynyddoedd o wasanaeth i dîm y Piod yn Bow Street fel chwaraewr, rheolwr, llumanwr, aelod o'r Pwyllgor a Chadeirydd. Boddhad mawr iddo oedd bod Alan ac Adrian ei feibion yn dal yn weithgar gyda'r Piod a bod Ryan bellach yn aelod o'r tîm cyntaf.

Bu colli Pat mor ddisymwyth yn ergyd drom i Dewi ac er na fu pethau yr un fath iddo wedyn rhaid cydnabod bod Alan, Davina ac Adrian wedi bod yn graig o gefnogaeth iddo a bod Sian, Nia, Ffion, Ryan, Lauren, Ruben, Bonnie, Jac ac Efa wedi rhoi cymaint o ysbrydoliaeth iddo.

Braint yw cael cyfle i gofio am Dewi ac i ddiolch iddo am roi oes o wasanaeth diflino i'w deulu ac i'w gymuned a'i gymdeithas.

**Capel y Garn**

Fore Sul, 14eg o Fai, unodd cynulleidfa Capel Noddfa â gwahanol gapeli Gofalaeth y Garn yng Nghapel y Garn mewn gwasanaeth bendithiol o dan arweiniad ein Gweinidog,

Dr Watcyn James, gydag aelodau o'r gwahanol gapeli yn cymryd rhan. Aeth cyfraniadau'r casgliad at waith Cymorth Cristnogol.

A hithau'n ganol haf daeth yn bryd meddwl am baratoi ar gyfer y gaeaf. I'r perwyl hwnnw cynhaliwyd cyfarfod o bwyllgor Cymdeithas Lenyddol y Garn nos Fawrth, Mehefin 6ed, dan gadeiryddiaeth Nest Gwilym. Edrychwn ymlaen at gyhoeddi'r rhaglen orffenedig yn rhifyn nesaf *y Tincer* ym mis Medi.

**Swydd Newydd**

Llongyfarchiadau mawr i Anest Eurig, Cain Fallen, ar gael ei phenodi yn Newyddiadurwraig gyda'r BBC/S4C.

**Ar Wella**

Mae'n dda cael ar ddeall bod Beti Jones, Maes Ceiro; Rhiannon merch Martin a Sian Powell, Maes Ceiro, a Shân Hayward, Rhydtir Uchaf, yn gwella wedi derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlir yn ddiffuant â theuluoedd Albrighton, 28 Maes Ceiro, ac Ifans, 18 Carreg Wen, ar golli tad David a Wendy yn ddiweddar.

Ac â Freda Morris, Plas Cwmcynfelyn, Clarach (gynt Neuadd Wen, Bryn Meillion) ar farwolaeth yr Arglwydd John Morris, cyn AS Aberafan.

**Ffair Haf Neuadd Rhydypennau**

Dydd Sadwrn Mehefin 24

Dewch draw i ymuno â ni i godi hwyl ac arian ar gyfer Neuadd ein pentre!

Byddwch mor garedig â chysylltu os oes planhigion neu gynnyrch y gallwch eu rhoi i'w gwerthu ar stondin. 07486502605 / Neuaddrhydypennau@live.co.uk

## Clwb Gwawr Y Pennau

Gyda'r nosweithiau braf diweddar penderfynodd y merched gael taith gerdded fel gweithgaredd ym mis Mai. Cafwyd taith braf i fyny i Pen Dinas a'r haul yn gwenu gan ddangos yr ardal ar ei gorau. Pryd o fwyd wedyn yn Lolfa Athro – haeddiannol iawn ar ôl y cerdded! Diolch i Liza a Lynwen am drefnu.

Ddydd Sadwrn 20 Mai cynhaliwyd Gŵyl Haf Genedlaethol Merched y Wawr ym Machynlleth. Aeth Nest yno i gasglu tarian ar ran y clwb am y cynnydd mwyaf mewn aelodaeth ymhlith canghennau a chlybiau'r De. Braf gweld y niferoedd yn cynyddu –cofiwch mae croeso i unrhyw un ymuno! Derbyniodd Nest wobr hefyd am ysgrifennu pennill i un o gardiau Nadolig Merched y Wawr.






## Dolau

-Cysylltir yr enw Leggett a cherddoriaeth yn lleol gyda dwy genhedlaeth wedi bod yn dysgu a pherfformio cerddoriaeth. Dyma un o'r drydydd genhedlaeth yn dangos addewid – Rhodri Leggett, mab David a Ruth, Dinas Powys, fu'n perfformio yng nghynhyrchiad Orbit Theatre 'School of Rock' yn y Theatr Newydd yng Nghaerdydd. Gwelir un o'i edmygwyr – ei frawd iau Osian wrth ei ochr. Yr un pryd roedd ei rieni David a Ruth yn brysur yn cystadlu gyda Adran Urdd Coed y Cwm-adran Dinas Powys a Phenarth.



Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture
Canolfan Morlan, Morfa Mawr
Aberystwyth Ceredigion
SY23 2HH
www.morlan.cymru

D J Evans
Cyfarwyddwyr
Angladdau
Busnes teuluol gyda dros
60 mlynedd o brofiad
Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
Gwasanaeth personol, urddasol
gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
djevansfuneraldirectors@gmail.com
Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006



# Tymor mawr i'r Piod

Daeth dros 90 o chwaraewyr, eu partneriaid a swyddogion Clwb y Piod, Bow Street, i'w cinio blynyddol yng Nghlwb Pêl-droed Aberystwyth ddiwedd Mai, i ddathu diwedd tymor llwyddiannus dros ben. Gwnaeth y tîm cyntaf a'r eilyddion yn wych yn eu cynghreiriau ac ym mhob gêm gwpan. Gorffennodd y tîm cyntaf yn y drydedd safle yng Nghyngrair Ardal y Gogledd-ddwyrain, a cholli yn y gêm gwpan, ond ennill Cynghrair Ganolog yr Eilyddion (y National Reserve League Central) wnaeth yr ail dîm a cholli ar gicio o'r smotyn yn y gêm gwpan derfynol. Bu'r tîmau felly'n hynod anlwcus yn y ddwy gêm gwpan, ond ar y cyfan bu'n dymor arbennig iawn i'r Piod.

Wedi'r swper cafwyd areithiau gan Wyn Lewis (cadeirydd), Huw Bates (rheolwr yr eilyddion), Llŷr Hughes (rheolwr y tîm cyntaf), ac Allan Evans (dirprwy lywydd). Yna roedd yn amser cyflwyno'r gwobrau. Llongyfarchiadau arbennig i:

Prif chwaraewr y flwyddyn (Clubman): Lee Crumpler
Chwaraewr y Cefnogwyr ac enillydd Gwobr Goffa Dewi a Pat Evans: Siôn Ewart
Prif sgorwyr yr eilyddion: Joe Williams a Shaun Jones
Gwobr Harry Potter yr Eilyddion: Kurtis Dallas
Chwaraewr y Chwaraewyr (Eilyddion): James Davies
Chwaraewr Rheolwyr yr Eilyddion: Joe a Jac Williams
Prif sgorwyr y Tîm Cyntaf: Siôn Ewart ac Ifan Burrell
Chwaraewr Ifanc y Flwyddyn: Siôn Sullivan
Chwaraewr Rheolwyr y Tîm Cyntaf: Ben Davies
Chwaraewr y Chwaraewyr (Tîm Cyntaf): Ben Willis

Daeth y noson i ben mewn steil gydag adloniant wedi'i drefnu gan gwmni adloniant HAKA.



**Siôn Sullivan – cyflwynwyd y tlws gan Patrick Norrington Davies**



**Jac a Jo Williams – cyflwynwyd y tlws gan Allan Evans.**



**Kurtis Dallas – cyflwynwyd y tlws gan Huw Bates**



**Ifan Burrell a Siôn Ewart – cyflwynwyd y tlws gan y noddwr Dylan Roberts**



**Ben Davies – cyflwynwyd y tlws gan Llŷr Hughes**



**Joe Williams a Shaun Jones – cyflwynwyd y tlws gan y noddwr Justin Manley**



**Ben Willis – cyflwynwyd y tlws gan Tomos Wyn**



**Siôn Ewart – cyflwynwyd y tlws gan Alan a Ryan Evans**



**Lee Crumpler – cyflwynwyd y tlws gan Wyn Lewis**

# Her Tri Chopa'r Brifysgol yn codi miloedd at Uned Cemotherapi Ysbyty Bron-glais

Mae staff Undeb y Myfyrwyr a Phrifysgol Aberystwyth wedi cwblhau Her Tri Chopa Cymru i godi arian tuag at Uned Cemotherapi Ysbyty Bron-glais.

Cyn toriad gwawr ddydd Llun 15 Mai dechreuodd y criw o 21 o gerddwyr ar yr her o gwblhau'r daith gerdded 17 milltir mewn llai na 24 awr, gan gynnwys amser teithio.

Cyrhaeddwyd copa niwlog llaith ac oer yr Wyddfa mewn cwta ddwy awr a hanner ac erbyn amser cinio roedd y criw wedi cyrraedd copa heulog braf ond oer Cadair Idris, gyda'i olygfeydd godidog ar draws canolbarth Cymru.

Ac erbyn 8pm, yn heulwen diwedd dydd, cyrhaeddodd y tîm bwynt uchaf Bannau Brycheiniog, Pen y Fan, ar ôl dringo ychydig dros 6000 o droedfeddi mewn 16 awr.




Gwnaeth y tîm o gerddwyr gryn argraff ar yr arweinwyr mynydd profiadol Paul Inch a Connaire Cann gyda'u hysbryd cydweithredol ar yr hyn a brofodd yn ddiwrnod di-dramgwydd, hwyliog a gwerth chweil.

Gosodwyd targed cychwynnol o £1000 a bellach mae'r gronfa wedi croesi'r £6000, gan gynnwys cyfraniadau gan y criw fu'n dringo.

Bydd yr holl arian a godir yn mynd at Uned Ddydd Cemotherapi Ysbyty Cyffredinol Bron-glais, Elusen y Flwyddyn Prifysgol Aberystwyth ar gyfer 2022/2023.

Gall unrhyw un sy'n dymuno cyfrannu, wneud hynny drwy'r wefan https://hyweldda.enthuse.com/cf/bronglais-chemotherapy-day-unit.

Dywedodd Jean Jones, aelod staff ac un o drefnwyr y daith: "Dyna ddiwrnod gwych – llafurus a chyffrous i'r un graddau ac ar gyfer achos sydd mor bwysig. Rydyn ni i gyd yn adnabod pobl sydd wedi elwa o'r cyfleusterau ym Mronglais felly mae'n braf teimlo ein bod wedi gwneud ychydig o wahaniaeth trwy gwblhau'r her hon. Diolch i bawb a gymerodd ran, i'r rhai a'n cefnogodd ar y diwrnod ac i bawb sydd wedi cyfrannu at y codi arian."

## Adroddiad CFfI Tal-y-bont

'Rydym wedi cael cyfnod prysur eleni paratoi a chystadlu yn Neuadd Llanafan – hanner awr o adloniant. Aeth criw da ohonom i Neuadd Bronnant ganol Mawrth i 'Sosial' gydag aelodau clybiau Lledrod a Min aeth criw bach hefyd i Dregaron i gystadlu yng nghwis Iau y Sir

Fe wnaeth Lleucu ac Elan hefyd ymuno yn nhaith gerdded y Mudiad o'r Prom yn Aberystwyth i Dregaron ar ddydd Gwener y Groglith.

Mae nifer o aelodau yn paratoi nawr at gystadlaethau'r Rali fydd yn cael ei chynnal eleni yn Felin-fach. Diolch i bawb sydd yn eu hyfforddi.



inc

Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.

CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION

13 Stryd y Bont, Aberystwyth

01970 626 200

RHYD-Y-PENNAU

COGINIO CARTREF
CHWARAEON BYW . COFFI

01970 867 888

*Cyfarwyddwyr Angladdau*
***C. T. Evans***

***Perchnogion : Gwyn & Janet Evans***
***Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY23 5BS***

*Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn.*
*Wedi ei arwain yn Bersonol gyda Urddas.*
*Capel Gorffwys Preifat,Gwasanaeth Ddydd a Nos.*

***Ffôn 01970 820013***
***ebost : gwyn@ ct-evans.com***

WEST WALES
ANTIQUES
CAPEL BANGOR
Ydych chi angen gwerthu hen bethau, neu efallai angen gwacâu tŷ?
• Dodrefn • Arwyddion Enamel • Tacsidermi • Peintiadau • Cerflunwaith a Dodrefn Ardd • Hysbysebion • Carthenni • unrhywbeth hen neu anarferol!
Prynwr a Gwerthwr Hen Bethau
www.west-walesantiques.co.uk 07866 005996 dryburghantiques@gmail.com






## Madog, Dewi / Cefn-llwyd



**Marchnad Aberystwyth (1166)**
Cliriad llwyr gyda masnachu cyson cyflym iawn a chyfartaleddau anhygoel fel y gwelir isod

Ŵyn gwanwyn (14) Amcg £118 Mwy £140 gan Price, Llwyn, Cwmerfyn.
Arall i £114 gan Williams, Bwlchbach.
Cyplau defaid a mamogiaid (82) Amcg £140 Mwy £276 a £220 gan Savenelli, Cadwgan, Castellnewydd Emlyn. Eraill i £200 gan Evans, Erwfaethlon.
£185 gan Clifton, Talwrn.
Ŵyn blwydd (157) Amcg £65 Mwy £133 ganf Theobald, Bryngolau, Penrhyn-coch. Eraill i £126 gan Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Llanerchaeron £119 gan Jones, Cwmcae
Defaid lladd (752) Amcg £76 Mwy £169 gan Evans, Penllyn, Tywyn. Eraill i £158 gan Brifysgol Aberystwyth; £149 gan Hughes, Llwynbedw
Hyrddod (63) Amcg £125 Mwy £218 gan Davies, Cefnfaenor, Capel Dewi
Eraill i £192 gan Jenkins, Crud yr Awel £179 gan Evans, Llanerchyroen.

**Arddangosfa**
I gydfynd a'n cynhyrchiad theatr newydd, JEMIMA, mae arddangosfa o luniau ladis yr artist Ruth Jen i'w gweld yng Nghanolfan Arad Goch. Mae'r arddangosfa ar agor 9:30-4:30, dydd Llun i ddydd Gwener, a 9:30-12:00 foreau dydd Sadwrn tan yr 8fed Gorffennaf.



# Ysgol **Craig yr Wylfa**




**Pêl-droed**
Llongyfarchiadau i'r criw pêl-droed hefyd a oedd wedi cystadlu'n wych yn erbyn ysgolion cylch Aberystwyth. Cafwyd sawl gêm arbennig o agos a pherfformiadau unigol arbennig hefyd – da iawn chi fechgyn a merched am y cydweithio hwylus. Mae hi bob amser yn brofiad hyfryd i chwarae ar Goedlan y Parc hefyd.

**Sioe Jemima**
Ar hyn o bryd mae cynhyrchiad newydd, cyffrous gan Gwmni Theatr Arad Goch yn teithio o gwmpas theatrau Cymru. Mae'r sioe' cyflwyno hanes un o fenywod pwysicaf yn hanes Cymru sef Jemima Nicholas o Sir Benfro. Yn ogystal â rhannu'r hanes, cafwyd cerddoriaeth, ychydig o ddireidi, a lot o hwyl fel rhan o'r sioe. Roedd hi'n braf i gael cymaint o'r plant yn ymuno â'i ffrindiau a gweld sioe mewn theatr unwaith eto. Hoffwn ddiolch yn fawr i Gyngor y Celfyddydau am ei nawdd hael i'r digwyddiad. Dyma boster gan Finn yn efelychu'r poster gwreiddiol yn hysbysebu'r sioe.

**Clwb ar ôl Ysgol**
Mae'r Clwb ar ôl Ysgol yn cynnig gweithgareddau chwaraeon cyffrous y tymor yma eto. Diolch yn fawr i Catrin o Urdd Gobaith Cymru am ddod atom yn wythnosol.

**Marciau Iard Newydd**
Dros yr hanner tymor daeth Cwmni Mana Design atom i roi ychydig mwy o liw ar iard yr ysgol. Fel y gwelwch o'r llun, roedd y plant wrth eu boddau'n arbrofi gyda'r gemau newydd.

**Ysgol y Goedwig**
Mae'r sesiynau amrywiol wedi parhau dros y mis gyda'r uchafbwynt o greu diod ysgawen. Roedd y plant yn gyffrous yn tynnu'r blodau oddi ar ein cloddiau a wedyn mynd ati i greu'r diod gan ddilyn rysáit arbennig. Mae galw mawr am y cynnyrch yn barod a bydd yn rhaid i ni wneud mwy yn fuan! Rydym hefyd wedi cystadlu yn Sioe Aberystwyth, felly croesi bysedd y bydd y beirniaid yn cytuno bod ein diod yn blasu'n wych!

**Newyddion Staffio**
Llongyfarchiadau i Miss Lucy Hughes ar enedigaeth ei mab bach Albi ar ddechrau Mehefin. Dymuniadau gorau i'r teulu oddi wrth bawb yn Ysgol Craig yr Wylfa.
Dros gyfnod mamolaeth Miss Hughes bydd Mrs Lauren Jones yn ymuno gyda ni i ddysgu dosbarth Cyfnod Allweddol 2. Dymuniadau gorau i chi hefyd, gan obeithio y byddwch yn hapus iawn gyda ni yma.

I gyd-fynd gydag arddangosfa yn Star of the Sea, dyma ddarn o farddoniaeth a gyfansoddwyd o dan y teitl 'Beth yw Borth i fi'
Pentref hardd,
Traeth hyfryd, ymlaciol,
Môr clir,
Siopau prysur,
Eglwys dawel,
Hufen iâ melys,
Sglodion blasus,
Ysgol garedig,
Fy nghartref i.









# Ysgol **Rhydypennau**

**Eisteddfod yr Urdd**

Llongyfarchiadau mawr i'r plant fu'n cynrychioli'r ysgol yn Llanymddyfri dros yr hanner tymor. Pleser o'r mwyaf oedd gweld y Parti Cerdd Dant yn perfformio mor arbennig ar lwyfan y pafiliwn ar ddechrau'r wythnos. Da iawn chi!

Hoffa'r ysgol ddiolch o galon i Mrs Helen Williams ac Eleri Roberts am arwain a hyfforddi'r plant i gyrraedd safon mor uchel. Efallai i rai ohonoch chi sylwi pa mor smart oedd plant y Parti Cerdd Dant wrth ymddangos ar y sgrîn deledu; wel, mae'r diolch yn mynd i 'Alison Jones Schoolwear' am y crysau T newydd sbon. Rydym fel ysgol yn gwerthfawrogi rhodd hael Alison yn fawr iawn.

Glan-llyn

Ar ddechrau mis Mai fe deithiodd 25 o blant blwyddyn 6 i wersyll yr Urdd, Glan-llyn am dridiau o ddifyrrwch. Yn ystod y cymdeithasu a'r hwyl, bu'r plant yn brysur iawn yn mwynhau nifer o weithgareddau amrywiol gan gynnwys hwylio, canŵio, dringo a bowlio deg. Braf oedd gweld y plant yn cael y cyfle i fwynhau profiad preswyl gyda'i gilydd a chymdeithasu oddi ar dir yr ysgol. Ac er i bawb gyrraedd nôl yn yr ysgol yn flinedig ar ddiwedd yr wythnos, roedd pob un wedi mwynhau'r profiadau gwych yn fawr iawn.

**Ymweliadau**

Mae prysurdeb tymor olaf y flwyddyn yn parhau.

Yn ystod mis Mai, treuliodd plant blwyddyn 3 a 4 bore ar fferm Peithyll. Cafodd y plant eu tywys o gwmpas y fferm ddefaid gan ddysgu rhagor o wybodaeth am thema'r dosbarth sef 'O'r Fferm i'r Fforc'. Diolch yn fawr i Dewi, Ffion a Lowri am fore hynod o ddiddorol.

Diolch i'r Gwasanaeth Tân am alw mewn i'r dosbarth derbyn yn ddiweddar i ateb llwyth o gwestiynau a thywys y plant o gwmpas yr injan.

Diolch yn fawr i PC Goffin am egluro i blant yr uned feithrin sut mae pobl yn helpu ni yn ein cymuned; ac hefyd am arwain blwyddyn 5 trwy ddulliau arbed bywyd a Chymorth Cyntaf.

Diolch hefyd i PC Diane fuodd yn cynghori a rhybuddio plant blwyddyn 6 am beryglon cyffuriau a'r problemau all godi wrth ymwneud â'r cyfryngau cymdeithasol.

Diolch i Paul Rowe, Swyddog datblygu Criced yr ardal am gynnal sesiynau hyfforddi gyda disgyblion Cyfnod Allweddol 2.







**Gorchest!**

Llongyfarchiadau mawr i Ted Jones Blwyddyn 6 am gwblhau tymor llwyddiannus tra'n cynrychioli tîm rygbi ysgolion Ceredigion dan 11. Uchafbwynt y tymor oedd buddugoliaeth diweddar y tîm dros ranbarth Caerdydd i ennill tlws cystadleuaeth 7 bob ochr Llanymddyfri.

Da iawn ti!









# Ysgol **Pen-llwyn**

**Ymweliad I Ynys-hir**
Rydyn yn dilyn cynllun Caru gwenyn gan Llywodraeth Cymru fel rhan o thema’r dosbarth ac fe gawsom lwyth o syniadau wrth ymweld ag Ynys-hir. Braf oedd chwilota am drychfilod bach o dan foncyffion pren, defnyddio rhwydi yn y glaswellt hir ac yna darganfod bywyd gwyllt yn y pwll dŵr!!














**Gweithdy Opera**
Cafodd disgyblion blwyddyn 5 cyfle i gymryd rhan mewn gweithdy opera mis dwethaf, cyn mynd lawr i Theatr Felin-fach i wylio sioe opera ei hun. Roedd y plant wrth eu bodd.

**Glan-llyn**
Cafodd disgyblion bl.5 a 6 dri diwrnod bendigedig yng Ngwersyll yr Urdd Glan-llyn ar ddechrau mis Mai. Cafwyd gwledd o weithgareddau megis rhwyfo, canwio, rhaffau uchel a'r wal ddringo dim ond i enwi rhai.

**Trawsgwlad**
Llongyfarchiadau enfawr i blant Blwyddyn 3 a 4 a fu'n cystadlu yn Nhrawsgwlad Cylch Aberystwyth. Mi wnaeth pawb wneud eu gorau glas ymhob ras. Llongyfarchiadau hefyd i Bella a ddaeth yn 10fed – camp fawr! Llongyfarchiadau i Talys a Llinos a fuodd yn cystadlu yn Nhrawsgwlad Cenedlaethol yr Urdd. Llongyfarchiadau anferthol i Llinos am ddod yn ail yn y ras i ferched blwyddyn 6




**Gwydion Mêl y felin**
Fel rhan o'n gwaith thema y tymor hyn fe wnaeth Gwydion o Mêl y Felin ddod i siarad gyda'r plant am beillwyr a blodau gwyllt. Mi wnaeth y plant fwynhau dysgu am yr hyn mae peillwyr yn gwneud ac edrych ar yr hyn sydd o fewn cwch gwenyn. Diolch enfawr i Gwydion am gynnal y sesiwn hyfryd.
Diolch yn fawr iawn i Ian a George o'r RNLI am ddod i wneud cyflwyniad ar ddiogelwch ar y traeth i'r plant. Atebol iawn yn y tywydd hyn.



**Pêl droed a Phêl rwyd y cylch**
Llongyfarchiadau i dimoedd pêl-droed a phêl-rwyd yr ysgol a fuodd yn cystadlu yng nghystadlaethau cylch yr ardal. Perfformiadau o safon uchel iawn gyda'r ddau dîm gôl i ffwrdd rhag cyrraedd y rowndiau go-gynderfynol.

# Ysgol **Penrhyn-coch**

**Pob hwyl Miss. Amy Pullin**
Diolch yn fawr iawn i Miss Amy Pullin am ei gwaith caled dros y misoedd diwethaf, pob dymuniad da iddi yn y dyfodol.

**Beth ydw i'n gwybod am fyd natur?**
Mae Dosbarth Derbyn wedi bod wrth eu boddau gyda'r cwestiwn ymholi am y tymor sef, "Beth ydw i'n gwybod am fyd natur?" Aethant ar ymweliad i Ynys-hir, diolch i Jenny a Monica am ddiwrnod bendigedig yn dysgu am drychfilod. Diolch hefyd i Gwydion Ifan, gwenynwr cwmni Mêl y Felin am ddod i sgwrsio am beillwyr, blodau gwyllt a chynhyrchu mêl. Ymlaen wedyn ar daith gerdded i weld gerddi cymunedol y pentref. Hyfryd gweld gwledd o lysiau a blodau gwyllt. Cawsom hwyl wrth blannu hadau blodau'r haul. Sgwn i ba ddosbarth fydd yn tyfu'r planhigyn talaf?!

**Llaeth Teulu Jenkins**
Diolch i Mrs Jenkins am ddod i'r ysgol i siarad â ni am y fferm a'r llaeth. Roedd yn sesiwn diddorol ac roedd y llaeth a'r ysgytlaeth yn flasus iawn!

**Sgwrs RNLI**
Can ddiolch i Huw a George am ddod i rannu neges bwysig iawn am sut i gadw'n ddiogel ar lan y môr.

**Gweithdy criced**
Roedd y Dosbarth Derbyn, blwyddyn 5 a 6 wedi mwynhau gweithdy criced. Diolch i Mr. Paul Rowe am gynnal y sesiynau hwyl yma.

**RAY Ceredigion**
Diolch i RAY Ceredigion am gynnal sesiynau chwarae yn ystod amser cinio. Roedd y plant wedi cael hwyl a sbri.

**Neges Ewyllys Da Yr Urdd 2023**
Ar ddydd Iau 18fed o Fai cyhoeddwyd Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd 2023 ar y thema gwrth-hiliaeth. Bwriad y neges oedd nodi fod lle cyfartal i bawb mewn cymdeithas – Galw. Nhw. Allan. / Call. Them. Out. Ar ôl sesiwn Amser Cylch am Hiliaeth fe wnaeth CA2 ymchwilio i fyd Reggae a dysgu dawnsio i gân Morgan Elwy 'Bach o hwnne'.

**Cystadleuaeth trawsgwlad yr Urdd**
Llongyfarchiadau mawr i Moli, Archie, Vinnie a Ffion am redeg yn wych yng nghystadleuaeth cenedlaethol Cymru.

**Hyfforddiant Chwaraeon yr Urdd**
Gwerthfawrogwn yn fawr i Catrin a Rhiannon o fudiad yr Urdd a wnaeth gynnal Hyfforddiant Chwaraeon yn y Gymraeg i flwyddyn 5. Dysgwyd llawer o gemau hwyliog iawn ac mae'r disgyblion yn edrych mlaen i'w cynnal ar fuarth yr ysgol yn ystod amseroedd egwyl. Diolch am eich hamser.

**Sioe Jemima, Arad Goch**
Am wledd i'r llygaid a'r clustiau oedd Jemima. Aeth disgyblion CA2 i wylio'r sioe oedd yn sôn am hanes Jemima Nicholas. menyw a drechodd ddwsin o fliwyr Ffrainc yn ystod Brwydr Abergwaun ym 1797. Gorfododd iddynt ildio eu harfau gyda dim ond ei phicfforch! Roedd y sioe yn llawn hanes, cerddoriaeth a dawnsio – roedd yn wych! Diolch Arad Goch am ei wneud. Sioe 5 seren!

**Y mae'r newyddion nesaf wedi cael eu cofnodi gan ddisgyblion yr ysgol.**

**Celf a Chrefft yr Urdd gan Mabli ac Iona (bl.4)**
Gwnaeth plant yr ysgol creu gwaith i gystadleuaeth Celf a Chrefft yr Urdd. Gwnaeth plant CA2 llawer o bethau. Gwaith Mabli a Lacey oedd clustog gyda buchod, ci, defaid a melinau gwynt arni. Mosaic efo dolffin yn neidio allan o'r dŵr o flaen machlud haul oedd gwaith Jac, Rhys, Twm a Gruff a gwnaeth Jac peth bwydo adar hefyd. Buodd y Cyfnod Sylfaen yn cymryd rhan hefyd. Gwnaeth Isla lun o fynyddoedd gwyrdd tal tu ôl stryd o dai. Gwnaeth Siôn lun o fynyddoedd gwyrdd a melinau gwynt. Roedd yn brofiad gwych cael y siawns i gystadlu.

Diolch yn fawr iawn i Mrs. Lynwen Jenkins am ein helpu. Dyma ganlyniadau yr Eisteddfod Rhanbarth.

Creadigol 2D Bl 6 ac iau (Grŵp) – Bois Penrhyn 1af.
Uwchgylchu Bl 5 a 6 – Jac 2il.
Tecstiliau Creadigol B.l.2 ac iau – Isla 2il, Siôn 3ydd.
Gemwaith Bl 2 ac iau – Phoebe 3ydd.
Ffotograff wedi'i addasu Bl. 6 ac iau – Jac 3ydd.
Tecstiliau Creadigol Bl 6 ac iau (grŵp) – Merched Penrhyn 3ydd.

**Gweithdy a Sioe Opera bl.5 gan Elis (bl.5)**
Ar ddydd Mawrth, yr ail o Fai, aeth bl.5 Penrhyncoch a Phenllwyn ac ysgolion eraill i weithdy opera yn Ysgol Rhydypennau. Cawsom gwrdd â rhai o'r cymeriadau, fel Lully ac Oliver Cromwell. Roedd e wir yn wych! Roeddem ni yn canu trwy lot ohono!

Yr wythnos wedyn, aethon ni ETO ar drip bws i Theatr Felinfach, i wylio'r opera go iawn. Roedd e'n sôn am Madame Crotchet yn adrodd hanes opera a gafodd ei ddyfeisio tua 1607 gan Professore Perry. Ar y ffordd i'r sioe casglon ni plant bl.5 o ysgolion gwahanol! Y peth gorau am yr opera oedd yr actio. Fy hoff gymeriad oedd y cist teithio mewn amser oherwydd ei fod yn ddoniol. Hoffen i fynd i opera arall yn fuan yn y dyfodol.

**Gwersyll yr Urdd Glan-Llyn gan Twm (bl.6)**
Aeth Bl 5 a 6 Ysgol Penrhyn-coch ac Ysgol Pen-llwyn i Lan-llyn ar ddydd Mercher y 3ydd o Fai am wyliau preswyl. Gwnaed llawer o weithgareddau hwyliog iawn fel rhwyfo, adeiladu rafft, Dyn Adar, Bingo, gwylio ffilm, cyfeiriannu, rhaffau uchel, dringo wal, canwio, helfa drysor, disgo, bowlio deg a rhostio malws melys. Fe wanethom ni adael ar ddydd Gwener y 5ed o Fai. Roeddem ni wedi joio mas draw yng Nglan-llyn achos roedd yn braf cael chwarae ar y llyn, ger y llyn ac yn y llyn! Gobeithio ewn ni nôl eto cyn bo hir!


Theatr – Jemeima Arad Goch


Sgwrs RNLI


Trawsgwlad yr Urdd



Tîm preswyl bl 5 a 6 i Lan-llyn



Hyfforddiant chwaraeon yr Urdd




Ymweliad Laeth Teulu Jenkins



Ynys-hir



Gweithdy criced

## Lluniau mis Mai

Ymddiheuriadau – dylai y rhain fod wedi bod yn rhifyn Mai)



Twm yn cipio'r gadair




Manon (Pen-llwyn) yn cipio'r gadair



Timoedd pêl-droed



Timoedd pêl-rwyd



Gweithdy enwau lleoedd gydag Angharad Fychan

# Tasg y Tincer

Mae ardal *Y Tincer* ar ei gorau yn yr haf – gallwn adeiladu castell tywod yn y Borth, chwarae pêl-droed yn y parc ym Mhenrhyn-coch, neu wylio'r haul yn sbecian drwy'r dail yng nghoedwig Gogerddan! Diolch i bawb fu'n lliwio: Elis Jones-Jackson, Bow Street; Myfi Môn Lawlor, Cwmrheidol; Celt Meredydd a Math Roberts, Bont-goch; Osian Hatfield, Bont-goch; Hanna, Caerdydd; Ania Wyn Hughes,



Myfi

Penrhyn-coch; Jack Herron, Bow Street; Charlotte Griffiths, Llandre; Carian a Tirion Evans, Y Borth.
Dy lun di, **Myfi**, ddaeth o'r het bwced yn gyntaf. Llongyfarchiadau mawr! Mae rhywbeth diddorol iawn wedi bod yn digwydd ym mhentref Llangrannog y mis hwn. Mae cerflun wedi'i godi yno – cerflun efydd, hardd o Sarah Jane Rees. Cafodd hi ei geni amser maith yn ôl, yn 1839, yn Llangrannog. Roedd hon yn ddynes a hanner! Byddai'n mynd gyda'i thad ar deithiau ar y môr. Hefyd, bu'n dysgu sut i hwylio, yn siaradwraig cyhoeddus, a hi oedd y fenyw gyntaf i ennill gwobr am farddoni yn yr Eisteddfod Genedlaethol! Gwnaeth sawl peth arall – edrychwch ar y we amdani. Galwodd ei hunan yn Cranogwen. Beth am fynd am dro i Langrannog i weld ei cherflun?



**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn** **Oed**

Y mis hwn, gan gofio am draeth Llangrannog, beth am liwio llun y dolffiniaid? Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol, Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn 1 Medi. Ta ta tan toc, a wela i chi ym mis Medi!

ISSN 0963-925X

9 770963 925009

*Rhif 460 | Mehefin 2023*